Rhif ymchwil gymdeithasol: 73/2026

Dyddiad cyhoeddi: 14/07/2026

# Arolwg Diwydiant Cymru Greadigol 2025

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83745-746-5

Arolwg Diwydiant Cymru Greadigol 2025

Awdur: Saadiah Hood, Cyfarwyddwr Cyswllt, Ymchwil Strategol a Mewnwelediad

Adroddiad Ymchwil Llawn: Hood, S. (2026). Arolwg Diwydiant Cymru Greadigol 2025. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 73/2026.

Gellir dod o hyd i'r adroddiad hwn ar dudalennau Ystadegau ac ymchwil gwefan Llywodraeth Cymru: https://www.llyw.cymru/ystadegau-ac-ymchwil

Barn yr ymchwilydd ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Cymru Greadigol

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: CymruGreadigol@llyw.cymru

# Tabl cynnwys

Rhestr o dablau ........ 3

Rhestr ffigurau ........ 4

Geirfa ........ 5

1. Cyflwyniad a chefndir ........ 7
   1.1. Trosolwg o'r ymchwil ........ 7
   1.2. Strwythur yr adroddiad hwn ........ 8
2. Methodoleg ........ 9
   2.1. Cynllun yr ymchwil ........ 9
   2.2. Samplu a recriwtio ........ 9
   2.3. Sampl a gafwyd ........ 9
   2.4. Cynllun yr arolwg ........ 10
   2.5. Prosesu data a sicrhau ansawdd ........ 11
   2.6. Dadansoddi ac adrodd ........ 11
   2.7. Cyfyngiadau ........ 12
3. Proffil yr ymatebwyr a chwmpas y sector ........ 13
   3.1. Cynrychiolaeth sector ........ 13
   3.2. Statws cyflogaeth ........ 14
   3.3. Oedran a strwythur busnes ........ 14
   3.4. Dosbarthiad daearyddol ........ 15
   3.5. Iaith cwblhau ........ 16
4. Perfformiad busnes, hyder a chyllid ........ 17
   4.1. Newidiadau mewn trosiant ........ 17
   4.2. Ysgogwyr newid mewn trosiant ........ 18
   4.3. Hyder mewn perfformiad yn y dyfodol ........ 19
   4.4. Cyrchu cyllid ........ 20
   4.5. Safbwyntiau o atebion agored ........ 21
5. Gweithlu, sgiliau a recriwtio ........ 23
   5.1. Gweithgarwch recriwtio ........ 23
   5.2. Heriau recriwtio ........ 24
   5.3. Bylchau mewn sgiliau ac anghenion hyfforddi ........ 24
   5.4. Mewnwelediadau ansoddol: gweithlu a recriwtio ........ 27

6. Ymwybyddiaeth o Gymru Greadigol ac anghenion cymorth yn y dyfodol ................29
6.1. Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ..........................................................................29
6.2. Canfyddiadau ynghylch cefnogaeth.....................................................................30
6.3. Blaenoriaethau cymorth yn y dyfodol....................................................................30
6.4. Cyfathrebu gan Gymru Greadigol .........................................................................33
6.5. Mewnwelediadau ansoddol: canfyddiadau o gefnogaeth ......................................34
6.6. Sianeli cyfathrebu dewisol ...................................................................................35
7. Casgliadau ..............................................................................................................36
Atodiad A: Holiadur Terfynol .........................................................................................37

## Rhestr o dablau

Tabl 1: Sampl a gafwyd yn ôl modd (2025) ..... 10
Tabl 2: Sampl a gafwyd yn ôl is-sector (Cw1, 2022 i 2025) ..... 13
Tabl 3: Statws cyflogaeth yr ymatebwyr (Cw3, 2022 i 2025) ..... 14
Tabl 4: Oedran busnes yr ymatebwyr (Cw4, 2022 i 2025) ..... 14
Tabl 5: Strwythur cyfreithiol sefydliadau ymatebwyr (Cw5, 2022 i 2025) ..... 15
Tabl 6: Ffactorau sy'n cyfrannu at newidiadau mewn trosiant (2025) ..... 18
Tabl 7: Ffynonellau cyllid a gyrchwyd yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf (2025) ..... 20

## Rhestr ffigurau

Ffigur 1: Dosbarthiad daearyddol yr ymatebwyr (2025) ....... 16
Ffigur 2: Newid mewn trosiant yn ôl sector (Cw8a, 2025) ....... 17
Ffigur 3: Hyder mewn perfformiad yn y dyfodol (Cw9, 2022 i 2025) ....... 19
Ffigur 4: Hyder mewn perfformiad yn y dyfodol yn ôl sector (Cw9, 2025) ....... 20
Ffigur 5: Gweithgarwch recriwtio (Cw11, 2025) ....... 23
Ffigur 6: Bylchau mewn sgiliau a nodwyd gan fusnesau (Cw16c, 2025) ....... 25
Ffigur 7: Bylchau sgiliau a nodwyd gan weithwyr llawrydd (Cw16c, 2025) ....... 26
Ffigur 8: Ymwybyddiaeth o Gymru Greadigol (Cw20, 2024 i 2025) ....... 29
Ffigur 9: Anghenion cymorth yn y dyfodol a nodwyd gan ymatebwyr, 2022 i 2025 ....... 32
Ffigur 10: Canfyddiadau o gyfathrebu Cymru Greadigol, yn ôl rhanbarth (2025) ....... 33
Ffigur 11: Canfyddiadau o gyfathrebu Cymru Greadigol, yn ôl sector (2025) ....... 33

## Geirfa

**Diwydiannau creadigol (diffiniad o Gymru Greadigol)**

Mae'r diwydiannau creadigol yn sectorau sy'n seiliedig ar greadigrwydd, sgiliau a thalent unigol, gyda'r potensial i greu gwerth economaidd drwy gynhyrchu a gwneud yn fawr o eiddo deallusol. Mae Arolwg Diwydiant Cymru Greadigol yn casglu data ar is-sectorau'r diwydiannau creadigol a gefnogir gan Gymru Greadigol. Yr is-sectorau hyn yw:

Cerddoriaeth – gan gynnwys recordio a chyhoeddi sain, cerddorion a chyfansoddwyr, hyrwyddwyr a labeli, stiwdios ymarfer/recordio, gwyliau a digwyddiadau, lleoliadau, a gweithgarwch cymorth (e.e. criw, cyflenwyr).

Sgrin – gan gynnwys cynhyrchu ffilm a theledu, ôl-gynhyrchu, a gweithgarwch dosbarthu; darlledwyr; castio; cyfarwyddwyr; criw; stiwdios animeiddio; a darlledu radio a theledu.

Digidol – gan gynnwys stiwdios gemau, cyhoeddi meddalwedd, cynnwys trochol a rhyngweithiol, Createch, asiantaethau hysbysebu a chysylltiadau cyhoeddus, gwasanaethau dylunio, a chynrychiolaeth cyfryngau.

Cyhoeddi – gan gynnwys cyhoeddi llyfrau, papurau newydd, cyfnodolion a chyfeirlyfrau; gwasanaethau argraffu a chyn-argraffu; cyfieithu a dehongli; creu artistig (e.e. awduron); a gweithredu rhestrau postio.

**Gweithiwr Llawrydd**

Unigolyn sy'n hunangyflogedig ac fel arfer yn gweithio ar sail cytundeb neu brosiect i un neu fwy o sefydliadau, yn hytrach na chael ei gyflogi ar gytundeb parhaol.

**Hunangyflogedig**

Unigolyn sy'n gweithio iddo’i hun ac sy'n gyfrifol am ei gyfraniadau treth ac Yswiriant Gwladol ei hun. Yn yr arolwg hwn, dewisodd ymatebwyr y statws cyflogaeth a oedd yn disgrifio orau eu sefyllfa bresennol.

**Microfusnes**

Busnes sy'n cyflogi llai na 10 o bobl. O fewn y sectorau a gefnogir gan Gymru Greadigol, mae busnesau'n aml yn fach ac yn cael eu rheoli gan berchnogion, ac mae’n bosib eu bod yn dibynnu ar weithwyr llawrydd, contractwyr neu staff tymor byr yn hytrach na gweithwyr parhaol.

**Trosiant**

Cyfanswm yr incwm a gynhyrchir gan fusnes trwy werthu nwyddau neu wasanaethau dros gyfnod penodol, fel arfer blwyddyn ariannol, cyn i unrhyw gostau neu dreuliau gael eu didynnu.

**Gwaith prosiect**

Gwaith sy'n cael ei drefnu o amgylch prosiectau neu gomisiynau annibynnol, fel arfer gydag amserlenni ac allbynnau diffiniedig. Yn y diwydiannau creadigol, mae gwaith prosiect yn aml yn cynnwys cytundebau tymor byr, trefniadau llawrydd neu dimau dros dro wedi'u cynnull ar gyfer darnau penodol o waith, yn hytrach na chyflogaeth barhaus neu barhaol.

**Cyllid craidd**

Cyllid a ddarperir i gynorthwyo gweithgarwch parhaus a chostau gweithredu sefydliad, yn hytrach na'i fod yn gysylltiedig â phrosiect penodol neu allbwn â therfyn amser iddo.

**Ton (Ton 1 i Don 4)**

Mae 'ton' yn cyfeirio at un rownd o Arolwg Diwydiant Cymru Greadigol. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau o Don 4 (2025) ac, lle bo'n berthnasol, yn cymharu canlyniadau â thonnau cynharach a gynhaliwyd rhwng 2022 a 2024.

**Llwybro'r arolwg**

Cafodd cwestiynau'r arolwg eu llwybro fel bod ymatebwyr yn gweld cwestiynau sy'n berthnasol i'w rôl neu eu hamgylchiadau yn unig. O ganlyniad, nid oedd bob ymatebydd yn ateb pob cwestiwn.

# 1. Cyflwyniad a chefndir

Mae Cymru Greadigol yn rhan o Lywodraeth Cymru ac mae'n darparu cymorth i'r diwydiannau creadigol ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys cyllid, cyngor, datblygu sgiliau ac ymyriadau strategol gyda'r nod o gryfhau'r sector a chefnogi twf cynaliadwy.

Comisiynwyd Arolwg Diwydiant Cymru Greadigol i greu sylfaen dystiolaeth gadarn ar brofiadau, heriau a blaenoriaethau unigolion a busnesau sy'n gweithio ar draws y sectorau creadigol a gefnogir gan Gymru Greadigol. Mae'r arolwg wedi cael ei gynnal yn flynyddol ers 2022, gan ganiatáu i Gymru Greadigol olrhain newid dros amser a nodi tueddiadau sy'n dod i'r amlwg.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau o Don 4 (2025) yr arolwg ac yn cymharu canlyniadau â thonnau blaenorol (2022 i 2024) lle bo hynny'n briodol. Mae'r dadansoddiad yn defnyddio data arolwg meintiol yn bennaf, wedi'i ategu gan fewnwelediadau ansoddol o gwestiynau penagored (a ddangosir fel sylwadau gair-am-air enghreifftiol lle bo'n ddefnyddiol).

Bwriad y canfyddiadau yw:

- llywio'r gwaith o ddatblygu a chyflawni polisi Cymru Greadigol
- cynorthwyo'r broses o wneud penderfyniadau strategol
- darparu mewnwelediad i dueddiadau a phwysau sector cyfan
- tynnu sylw at feysydd lle y gellid bod angen cymorth pellach

## 1.1. Trosolwg o'r ymchwil

Mae Arolwg Diwydiant Cymru Greadigol yn casglu barno ystod eang o sectorau creadigol, gan gynnwys Sgrin, Cerddoriaeth, Digidol a Chyhoeddi. Mae'r ymatebwyr yn cynnwys perchnogion busnesau, gweithwyr llawrydd, gweithwyr a chyfarwyddwyr sy'n gweithio ledled Cymru.

Mae Ton 4 yn adeiladu ar donnau cynharach drwy:

- gynnal cysondeb mewn cwestiynau craidd i gynorthwyo cymhariaeth dros amser
- ymgorffori mân welliannau i adlewyrchu newidiadau yn y sector
- parhau i gasglu tystiolaeth feintiol ac ansoddol

Pan wneir cymariaethau, disgrifir gwahaniaethau rhwng tonnau yn ofalus, gan gydnabod newidiadau yn y sampl a gafwyd a'r cyd-destun sector ac economaidd ehangach.

## 1.2. Strwythur yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- mae adran 2 yn disgrifio'r fethodoleg ymchwil, gan gynnwys samplu, casglu data a chyfyngiadau
- mae adran 3 yn dangos proffil y busnesau
- mae adran 4 yn cyflwyno canfyddiadau ar berfformiad, hyder a chyllid busnes, gan gymharu â thonnau cynharach lle bo'n berthnasol
- mae adran 5 yn cymharu canfyddiadau sgiliau a recriwtio â thonnau blaenorol lle bo'n berthnasol
- mae adran 6 yn cyflwyno'r canfyddiadau allweddol o Don 4, gyda chymariaethau â thonnau blaenorol lle bo'n berthnasol, o’r ymwybyddiaeth o Gymru Greadigol a chymorth ariannol
- mae adran 7 yn dod â'r prif gasgliadau o'r dystiolaeth at ei gilydd
- mae atodiad A yn cynnwys holiadur yr arolwg

# 2. Methodoleg

## 2.1. Cynllun yr ymchwil

Mae Arolwg Diwydiant Cymru Greadigol yn arolwg blynyddol sydd wedi'i gynllunio i gasglu data cyson, cymaradwy ar brofiadau a blaenoriaethau unigolion a busnesau sy'n gweithio ar draws y sectorau creadigol a gefnogir gan Gymru Greadigol.

Cynhaliwyd ton 4 yr arolwg rhwng Hydref a Rhagfyr 2025 gan ddilyn dull meintiol modd cymysg. Cynhaliwyd yr arolwg naill ai dros y ffôn, gyda chyfwelydd hyfforddedig, neu wrth hunan-gwblhau ar-lein. Gallai ymatebwyr gwblhau'r arolwg yn Gymraeg neu’n Saesneg.

Cynlluniwyd y dull hwn i sicrhau bod yr arolwg yn cyrraedd cynifer â phosibl ar draws gwahanol rannau o'r sector, gan gynnwys gweithwyr llawrydd, perchnogion busnes, cyfarwyddwyr a gweithwyr, gan sicrhau ar yr un pryd fod modd cymharu â thonnau blaenorol.

Gofynnwyd i ymatebwyr ddewis y statws cyflogaeth sy'n disgrifio eu swydd bresennol orau (e.e. cyfarwyddwr/perchennog, gweithiwr, gweithiwr llawrydd neu hunangyflogedig). Roedd hwn yn gwestiwn un ateb ac felly mae categorïau yn annibynnol ar ei gilydd o fewn y set ddata, er, yn ymarferol, gall trefniadau gweithio ar draws y diwydiannau creadigol fod yn fwy cyfnewidiol. Lle bo'n bosibl, cadwyd cwestiynau craidd o donnau cynharach i gynorthwyo dadansoddi tueddiadau dros amser.

## 2.2. Samplu a recriwtio

Tynnwyd sampl yr arolwg o gyfuniad o gronfeydd data cysylltiadau presennol Cymru Greadigol, yn ogystal â chofnodion busnesau a gweithwyr llawrydd a brynwyd a oedd yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd y cytunwyd arnynt.

Roedd y boblogaeth darged yn cynnwys unigolion a busnesau sy'n gweithio yn y diwydiannau creadigol (ar draws ystod o is-sectorau a gynorthwyir gan Gymru Greadigol), sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Cynhaliwyd gwiriadau cymhwysedd ar ddechrau'r arolwg i sicrhau bod yr ymatebwyr yn bodloni'r meini prawf gofynnol cyn bwrw ymlaen.

## 2.3. Sampl a gafwyd

Roedd dadansoddiad Ton 4 yn cynnwys cyfanswm o 604 ateb. Mae'r sampl a gafwyd yn adlewyrchu'r rhai a gymerodd ran ac nid yw wedi ei bwysoli i gyd-fynd â phoblogaeth lawn y diwydiannau creadigol yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys:

- 501 o gyfweliadau ffôn a gwblhawyd
- 103 o atebion ar-lein

Adolygwyd atebion ar-lein oedd wedi'u cwblhau'n rhannol a chawsant eu cynnwys yn y dadansoddiad lle’r oedd yr ymatebwyr wedi symud ymlaen yn ddigonol drwy'r arolwg i ddarparu data ystyrlon (gan gynnwys gwybodaeth am sector a phroffil a, lle bo'n berthnasol, atebion i gwestiynau demograffig).

**Tabl 1: Sampl a gafwyd yn ôl modd (2025)**

(N=604)

| Sector | Ar-lein | Ffôn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Cerddoriaeth | 13 | 169 | 182 |
| Sgrin | 45 | 58 | 103 |
| Digidol | 30 | 158 | 188 |
| Cyhoeddi | 15 | 116 | 131 |

Disgrifiad o Dabl 1: Mae hwn yn dangos y sampl a gafwyd yn ôl sector a modd arolwg ar gyfer Ton 4 Arolwg Diwydiant Cymru Greadigol (N=604), sy'n cynnwys 501 o gyfweliadau ffôn a gwblhawyd a 103 o atebion ar-lein.

Mae'r sampl a gafwyd yn cwmpasu sectorau craidd Cymru Greadigol: Cerddoriaeth, Sgrin, Digidol a Chyhoeddi.

Roedd yr arolwg ffôn yn defnyddio cronfa ddata busnes a gafwyd gan frocer data cymeradwy, a oedd yn cynnwys 2,376 o fusnesau yn y diwydiant creadigol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Roedd y gronfa ddata yn cynnwys manylion cyswllt busnes a dosbarthiad sector, gan alluogi recriwtio wedi'i dargedu ar draws y pedwar sector.

Mae dosbarthiad y cwblhau yn ôl sector yn adlewyrchu gwahaniaethau o ran ymgysylltu ar draws moddau. Cyfweliadau ffôn sy'n cyfrif am y mwyafrif o atebion ym mhob sector. Mae'r sampl a gafwyd yn dod o bob un o’r sectorau ac yn cynorthwyo cymhariaeth ofalus â thonnau arolwg cynharach.

## 2.4. Cynllun yr arolwg

Datblygwyd yr arolwg ar y cyd rhwng Cymru Greadigol a Strategic Research and Insight (SRI).

Roedd yn cynnwys:

- cwestiynau craidd a gadwyd o donnau blaenorol i gefnogi cymharu
- cwestiynau caeedig i gasglu mesurau meintiol (e.e. newid trosiant, lefelau hyder)
- cwestiynau agored yn caniatáu i ymatebwyr esbonio eu barn yn eu geiriau eu hunain

Gwnaed rhywfaint o fireinio i adlewyrchu cyd-destun polisi a sector sy'n esblygu, gan gadw cysondeb â thonnau cynharach lle bynnag yr oedd hynny'n bosibl.

Darperir fersiwn wedi'i anodi o'r arolwg yn Atodiad A.

## 2.5. Prosesu data a sicrhau ansawdd

Roedd y prosesu data yn cynnwys:

- gwiriadau dilysu i amlygu atebion anghyflawn neu anghyson
- adolygiad o arolygon a gwblhawyd yn rhannol ar-lein
- glanhau a chodio atebion agored
- adolygu atebion 'arall' ac ailddosbarthu i gategorïau presennol lle'r oedd hynny'n berthnasol

Adolygwyd atebion agored yn thematig i nodi themâu cyffredin ac enghreifftiau eglurhaol. Cymerwyd gofal i sicrhau bod canfyddiadau ansoddol yn adlewyrchu'r ystod o safbwyntiau a fynegwyd ac nad oeddent yn seiliedig ar sylwadau prin.

Roedd yr holl ddadansoddiadau yn destun gwiriadau sicrhau ansawdd mewnol cyn adrodd.

## 2.6. Dadansoddi ac adrodd

Roedd y dadansoddi'n canolbwyntio'n bennaf ar ystadegau disgrifiadol, gyda chanfyddiadau wedi'u cyflwyno fel canrannau (dangosir y sail). Mae tablau manwl fesul rhanbarth a sector ar gael ar gais.

Lle bo hynny'n briodol, gwneir cymariaethau â thonnau arolwg cynharach (2022 i 2024) i dynnu sylw at dueddiadau eang dros amser. Mae'r cymariaethau hyn yn ddangosol yn hytrach nag achosol a dylid eu dehongli yng nghyd-destun y canlynol:

- newidiadau yng nghyfansoddiad y sampl
- pwysau economaidd a sectorol ehangach
- pwysau parhaus sy'n wynebu'r diwydiannau creadigol

Dadansoddwyd atebion arolwg agored yn thematig i nodi themâu a phynciau a godwyd yn aml gan ymatebwyr. Defnyddir canfyddiadau ansoddol a dyfyniadau enghreifftiol i ychwanegu cyd-destun a dyfnder i'r canlyniadau meintiol.

Mae dyfyniadau yn cael eu labelu gan ddefnyddio statws cyfredol lefel uchel, gyda sector a rhanbarth wedi'u cynnwys lle bo hynny'n ddefnyddiol a lle nad ydynt yn datgelu ymatebwyr.

## 2.7. Cyfyngiadau

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi mewnwelediad cadarn i brofiadau unigolion a sefydliadau sy'n gweithio ar draws y diwydiannau creadigol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r canfyddiadau yn ddarostyngedig i rai cyfyngiadau.

Mae atebion ansoddol, gan gynnwys sylwadau agored a dyfyniadau enghreifftiol, yn darparu dyfnder a chyd-destun gwerthfawr i'r canfyddiadau meintiol. Mae'r safbwyntiau hyn yn adlewyrchu profiadau'r ymatebwyr unigol neu grwpiau bach ac ni ddylid eu dehongli fel rhai cynrychioliadol o'r sector yn ei gyfanrwydd.

Mae'r holl ganrannau a ffigurau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar gyfanswm cyfunol yr ymatebwyr cymwys ar draws y moddau arolwg ffôn ac ar-lein. Sicrhaodd sgrinio cymhwysedd ar ddechrau'r holiadur mai dim ond ymatebwyr sy'n gweithio yn yr is-sectorau creadigol a gefnogir gan Gymru Greadigol yng Nghymru oedd yn cael eu cynnwys yn y dadansoddiad (Sgrin, Digidol, Cerddoriaeth a Chyhoeddi). Nid yw'r arolwg yn cynnwys ehangder llawn y diwydiannau creadigol yng Nghymru ac felly dylid dehongli canfyddiadau yng nghyd-destun yr is-sectorau hyn. Dylid nodi hefyd y gallai rhai grwpiau o fewn yr is-sectorau hyn fod wedi eu tangynrychioli.

Oherwydd llwybro'r arolwg, ni wnaeth pob ymatebydd ateb pob cwestiwn. Mewn rhai achosion, mae'r dadansoddiad felly yn seiliedig ar nifer llai o atebion. Lle mae sylfaen yn fach, cyfeirir at niferoedd absoliwt yn hytrach na chanrannau i gynnal tryloywder ac uniondeb data.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd nodi nifer y gweithwyr yn eu sefydliad. Fodd bynnag, dewisodd cyfran fawr ystod o weithwyr neu ni ddarparwyd digon o fanylion i gael dosbarthiad maint busnes cyson. O ganlyniad, nid yw canfyddiadau'n cael eu cyflwyno yn rheolaidd yn ôl maint busnes yn yr adroddiad hwn a dylid dehongli unrhyw gyfeiriadau at fusnesau bach neu fusnesau a reolir gan berchnogion fel rhai cyd-destunol yn hytrach na diffiniol.

Wrth gymharu canfyddiadau ar draws tonnau arolwg (2022 i 2025), mae'n bwysig cydnabod bod meintiau sampl wedi amrywio o flwyddyn i flwyddyn, ynghyd â chynrychiolaeth sector a phroffiliau ymatebwyr. Dylid ystyried y cyd-destun economaidd a pholisi ehangach hefyd wrth gymharu canfyddiadau.

O ganlyniad, dylid ystyried cymariaethau blwyddyn ar flwyddyn fel rhai dangosol yn hytrach na diffiniol.

# 3. Proffil yr ymatebwyr a chwmpas y sector

## 3.1. Cynrychiolaeth sector

Roedd ymatebwyr i Don 4 (2025) yn cynrychioli ystod eang o is-sectorau creadigol. Roedd Digidol yn cyfrif am 31% o'r ymatebion, ac yna Cerddoriaeth (30%), Cyhoeddi (22%) a Sgrin (17%).

Mae'r proffil hwn yn gyson i raddau helaeth â 2024, lle’r oedd Sgrin yn cyfrif am y gyfran fwyaf o'r ymatebion (35%), ac yna Digidol (26%), Cyhoeddi (23%) a Cherddoriaeth (16%). Yn 2023, roedd cynrychiolaeth wedi'i dosbarthu'n fwy cyfartal ar draws yr is-sectorau. Roedd gan y don gyntaf yn 2022 faint sampl llai a dosbarthiad sector mwy crynodedig, gyda Chyhoeddi yn cyfrif am ychydig dros hanner yr atebion (51%), o'i gymharu â rhychwant mwy cytbwys ar draws sectorau mewn tonnau diweddarach. Mae hyn yn bwysig i'w nodi wrth gymharu canfyddiadau ar draws tonnau, gan y gall gwahaniaethau mewn cynrychiolaeth sector ddylanwadu ar ganlyniadau cyffredinol a dylid eu hystyried wrth ddehongli newidiadau o flwyddyn i flwyddyn.

Mae amrywiad bach rhwng tonnau yn debygol o adlewyrchu gwahaniaethau mewn llwybrau recriwtio a lefelau ymgysylltu yn hytrach na newidiadau sylweddol yng nghyfansoddiad y sector.

**Tabl 2: Sampl a gafwyd yn ôl is-sector (Cw1, 2022 i 2025)**

| Sector | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 |
|---|---:|---:|---:|---:|
| Digidol | 47 | 165 | 214 | 188 |
| Cerddoriaeth | 56 | 165 | 133 | 182 |
| Cyhoeddi | 174 | 173 | 182 | 131 |
| Sgrin | 65 | 136 | 279 | 103 |
| **Cyfanswm y sylfaen sampl** | **341** | **639** | **808** | **604** |

Disgrifiad o Dabl 2: Mae hwn yn dangos y sampl a gafwyd yn ôl is-sector creadigol ar gyfer pob ton o Arolwg Diwydiant Cymru Greadigol (2022 i 2025) ac yn darparu cyd-destun ar gyfer cymhariaeth draws-donnau. Dylid ystyried gwahaniaethau mewn cynrychiolaeth sector a maint y sampl wrth ddehongli tueddiadau blwyddyn ar ôl blwyddyn.

Yn gyffredinol, mae'r cwmpas sector ar draws tonnau yn caniatáu cymhariaeth eang dros amser.

## 3.2. Statws cyflogaeth

Yn 2025, roedd 48% o'r ymatebwyr yn nodi eu bod yn berchnogion busnes, cyfarwyddwyr neu gyflogwyr, 8% yn weithwyr llawrydd, 24% yn hunangyflogedig, a 20% yn weithwyr.

Mae'r dosbarthiad hwn yn debyg i 2024, lle'r oedd 42% yn nodi eu bod yn berchnogion busnes neu gyfarwyddwyr a 12% yn weithwyr llawrydd, 26% yn hunangyflogedig, a 19% yn gyflogeion, ac yn 2023 lle'r oedd y ffigurau cyfatebol yn 41%, 13%, 24% a 21% yn y drefn honno.

Mae'r gyfran uchel o gyfarwyddwyr/perchnogion ac ymatebwyr hunangyflogedig yn gyson â natur fach busnesau a busnesau a reolir gan berchnogion yn y sectorau a gefnogir gan Gymru Greadigol.

**Tabl 3: Statws cyflogaeth yr ymatebwyr (Cw3, 2022 i 2025)**

| Statws cyflogaeth | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 |
|---|---:|---:|---:|---:|
| Cyfarwyddwr neu berchennog | 43% | 41% | 42% | 48% |
| Gweithiwr | 21% | 21% | 19% | 20% |
| Gweithiwr Llawrydd | 7% | 13% | 12% | 8% |
| Hunangyflogedig | 29% | 24% | 26% | 24% |

Disgrifiad o Dabl 3: Mae hwn yn dangos dosbarthiad yr ymatebwyr yn ôl statws cyflogaeth ar draws tonnau arolwg (2022 i 2025) ac yn darparu cyd-destun ar gyfer cymharu dros amser.

Noder: Yr holl ymatebwyr sy'n ateb Cw3 ym mhob ton; mae'r sylfaen yn amrywio yn ôl blwyddyn (2022: n=341; 2023: n=639; 2024: n=808; 2025: n=604).

## 3.3. Oedran a strwythur busnes

Ar draws y sampl lawn a gafwyd, dywedodd 74% eu bod wedi bod yn gweithredu am fwy na deng mlynedd, gan ddynodi sampl sefydledig i raddau helaeth. Cwmnïau cyfyngedig preifat (51%) ac unig fasnachwyr (33%) yw'r strwythurau cyfreithiol mwyaf cyffredin o hyd.

**Tabl 4: Oedran busnes yr ymatebwyr (Cw4, 2022 i 2025)**

| Busnes wedi dechrau | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 |
|---|---:|---:|---:|---:|
| Yn y 2 flynedd ddiwethaf | 1% | 5% | 6% | 6% |
| 2-5 mlynedd yn ôl | 5% | 10% | 9% | 9% |
| 6-10 mlynedd yn ôl | 12% | 12% | 12% | 11% |
| Mwy na 10 mlynedd yn ôl | 82% | 73% | 73% | 74% |

Disgrifiad o Dabl 4: Mae hwn yn dangos dosbarthiad yr ymatebwyr yn ôl oedran busnes ar draws tonnau arolwg (2022 i 2025) ac yn darparu cyd-destun ar gyfer cymhariaeth dros amser.

Noder: Yr holl ymatebwyr sy’n ateb Cw4 ym mhob ton; mae’r sylfaen yn amrywio yn ôl blwyddyn (2022: n=341; 2023: n=639; 2024: n=808; 2025: n=604).

**Tabl 5: Strwythur cyfreithiol sefydliadau ymatebwyr (Cw5, 2022 i 2025)**

| Statws cyfreithiol | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 |
|---|---|---|---|---|
| Unig berchnogaeth neu fasnachwr | 33% | 35% | 35% | 33% |
| Cwmni cyfyngedig preifat, cyfyngedig drwy gyfranddaliadau (LTD) | 44% | 37% | 39% | 51% |
| Cwmni preifat cyfyngedig drwy warant | 5% | 3% | 4% | 3% |
| Partneriaeth | 10% | 4% | 5% | 5% |
| Partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig | <1% | 10% | 7% | 1% |
| Sefydliad Corfforedig Elusennol | 4% | 5% | 4% | 4% |
| Arall | 4% | 7% | 6% | 2% |


Disgrifiad o Dabl 5: Mae hwn yn dangos strwythur cyfreithiol sefydliadau ymatebwyr ar draws tonnau arolwg (2022 i 2025) ac yn darparu cyd-destun ar gyfer cymhariaeth dros amser.

Noder: Yr holl ymatebwyr sy’n ateb Cw5 ym mhob ton; Mae’r sylfaen yn amrywio yn ôl blwyddyn (2022: n=341; 2023: n=639; 2024: n=808; 2025: n=604).

## 3.4. Dosbarthiad daearyddol

Roedd yr ymatebwyr wedi'u lleoli ar draws pob rhanbarth yng Nghymru, gyda'r gyfran uchaf wedi'i lleoli yn ne-ddwyrain Cymru (50%), ac yna de-orllewin Cymru (21%), gogledd Cymru (18%) a chanolbarth Cymru (10%).

**Ffigur 1: Dosbarthiad daearyddol yr ymatebwyr (2025)**




Nodyn: Efallai na fydd canrannau'n dod i gyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu.

Disgrifiad o Ffigur 1: Mae hwn yn dangos dosbarthiad daearyddol yr ymatebwyr ledled Cymru ar gyfer Ton 4 Arolwg Diwydiant Cymru Greadigol (N=604). Mae'r ffigur yn dangos cyfran yr ymatebwyr ym mhob rhanbarth ac yn darparu cyd-destun ar gyfer dehongli amrywiad rhanbarthol yn y canfyddiadau.

Er bod canolfannau trefol yn parhau i fod yn amlwg, mae atebion yn parhau i gael eu casglu o ardaloedd gwledig a llai poblog, yn gyson â thonnau cynharach.

## 3.5. Iaith cwblhau

Fel yn y blynyddoedd blaenorol, gallai ymatebwyr gwblhau'r arolwg yn Gymraeg neu yn Saesneg. Dewisodd cyfran fach (4%) ymateb yn Gymraeg, gan danlinellu pwysigrwydd cynnal ymchwil dwyieithog.

Roedd amrywiaeth hefyd yng ngallu Cymraeg ymatebwyr. Ar y cyfan, dywedodd 15% eu bod yn rhugl yn y Gymraeg, gyda 7% arall yn gallu siarad cryn dipyn, wrth i oddeutu chwarter (24%) ddweud nad oedd ganddynt unrhyw allu Cymraeg. Roedd lefelau gallu Gymraeg hefyd yn amrywio yn ôl sector, gyda rhugldder cymharol uwch yn cael ei adrodd yn y sectorau Sgrin a Chyhoeddi, a lefelau is yn y sector Digidol.

# 4. Perfformiad busnes, hyder a chyllid

Mae'r canfyddiadau canlynol yn adlewyrchu atebion o'r sampl lawn a gafwyd. Fel mewn tonnau blaenorol, dylid dehongli cymariaethau blwyddyn ar flwyddyn yn ofalus oherwydd gwahaniaethau mewn cyfansoddiad sampl a llwybro.


## 4.1. Newidiadau mewn trosiant

Yn Nhon 4, nododd 50% o'r ymatebwyr nad oedd unrhyw newid mewn trosiant o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol, tra bod 25% wedi nodi cynnydd a 25% wedi nodi gostyngiad.

Mae hyn yn cynrychioli cynnydd bach yn y gyfran sy'n adrodd trosiant sefydlog o'i gymharu â 2024, pan nododd 48% ddim newid, ac mae'n uwch nag yn 2023, pan nododd 37% ddim newid.

Wrth edrych o fewn canlyniadau 2025, roedd profiadau trosiant hefyd yn amrywio yn ôl sector, gyda rhai sectorau yn fwy tebygol o adrodd sefydlogrwydd neu dwf, tra bod eraill yn fwy tebygol o adrodd bod trosiant yn gostwng (Ffigur 2).

**Ffigur 2: Newid mewn trosiant yn ôl sector (Cw8a, 2025)**




Disgrifiad o Ffigur 2: Mae hyn yn dangos y newid a gofnodwyd yn y trosiant yn ôl sector ar gyfer Ton 4 Arolwg Diwydiant Cymru Greadigol (N=604). Mae'r ffigur yn dangos cyfran yr ymatebwyr ym mhob sector sy'n adrodd cynnydd, gostyngiad neu ddim newid mewn trosiant o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol, ac yn darparu cyd-destun ar gyfer amrywiad ar lefel sector mewn perfformiad busnes.

Fodd bynnag, mae chwarter yr ymatebwyr (25%) yn parhau i adrodd bod trosiant yn gostwng, gan danlinellu bod pwysau ariannol yn parhau i fod yn fater sylweddol i rannau o'r sector, er gwaethaf arwyddion o fwy o sefydlogrwydd yn gyffredinol. Roedd gostyngiadau'n fwy amlwg mewn rhai sectorau nag eraill, gyda'r ymatebwyr sy'n gweithio yn y sector Sgrin yn fwyaf tebygol o nodi gostyngiad mewn trosiant o'i gymharu â sectorau eraill (gweler Ffigur 2).

## 4.2. Ysgogwyr newid mewn trosiant

Gofynnwyd cyfres o gwestiynau dilynol i'r ymatebwyr a adroddodd am newid mewn trosiant (naill ai cynnydd neu ostyngiad) am y ffactorau sy'n cyfrannu at y newid hwn (Cw8b i Cw8d). Mae dadansoddiad o'r atebion hyn yn dangos mai'r ysgogwyr a grybwyllwyd amlaf yn 2025 oedd:

- argaeledd gwaith
- costau cynyddol (gan gynnwys pwysau costau byw)
- ymwybyddiaeth o'r busnes neu fy ngwaith

**Tabl 6: Ffactorau sy'n cyfrannu at newidiadau mewn trosiant (2025)**

| Ffactor | 2025 |
|---|---|
| Faint o fusnes neu waith sydd ar gael | 51% |
| Effeithiau costau byw cynyddol | 25% |
| Maint yr ymwybyddiaeth o'r busnes/ fy ngwaith | 19% |
| Faint o ddefnyddwyr neu gyfranogiad yn y sector rwy'n gweithio | 14% |
| Faint o gyllid cyhoeddus sydd ar gael | 11% |
| Effeithiau parhaus y pandemig Covid-19 | 8% |
| Effaith AI | 3% |
| Rhesymau personol | 3% |
| Goblygiadau Brexit | 2% |
| Gwleidyddiaeth neu faterion byd-eang | 2% |
| Newidiadau technolegol | 1% |
| Arall | 8% |

Noder: gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un opsiwn (N = 249).

Disgrifiad o Dabl 6: Mae hwn yn dangos y ffactorau yr adroddwyd eu bod yn cyfrannu at newidiadau mewn trosiant ymhlith ymatebwyr yn Nhon 4 Arolwg Diwydiant Cymru Greadigol (Cw8c). Mae atebion yn seiliedig ar gwestiwn aml-ateb ac yn nodi cyfran yr ymatebwyr sy'n crybwyll pob ffactor, gan ddarparu cyd-destun ar gyfer ysgogwyr newid mewn perfformiad busnes.

Ffactor a grybwyllwyd yn aml fel un oedd yn cyfrannu at newidiadau mewn trosiant yn 2025 oedd costau cynyddol, a nodwyd gan 25% o'r ymatebwyr (Tabl 6). Roedd atebion agored hefyd yn tynnu sylw at bryderon ynghylch costau gweithredu a chostau byw cynyddol, yn enwedig ymhlith gweithwyr llawrydd a sefydliadau llai. Fel y nododd un ymatebydd:

> "Llai a llai o waith. Mwy a mwy o dreuliau a phrisiau uwch. Nid yw codi fy mhrisiau yn cyfateb i bŵer prynu is fy nghleientiaid."
>
> (Gweithiwr Llawrydd, Digidol, De-ddwyrain Cymru)


### 4.3. Hyder mewn perfformiad yn y dyfodol

Graddiodd 51% o'r ymatebwyr eu hyder yn 4 neu 5 ar raddfa pum pwynt pan ofynnwyd iddynt ba mor hyderus oeddent yn teimlo am redeg eu busnes yn broffidiol yn y flwyddyn ariannol nesaf. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o'i gymharu â 2024 a 2023, pan nododd 42% hyder uchel, sef 4 neu 5.

Er gwaethaf y gwelliant cyffredinol hwn, mae hyder yn parhau i fod yn anwastad ar draws y sector. Fel mewn tonnau blaenorol, roedd gweithwyr llawrydd yn fwy tebygol na chyflogwyr a pherchnogion busnes i adrodd hyder is (er enghraifft, dywedodd 7% o weithwyr llawrydd eu bod yn hyderus iawn o'i gymharu â 28% o gyflogwyr). Mae atebion agored yn awgrymu bod hyn yn adlewyrchu pryderon parhaus ynghylch cytundebau tymor byr, anwadalrwydd incwm a gwelededd cyfyngedig y biblinell.

Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau'n awgrymu adferiad cymedrol mewn hyder ar lefel gyffredinol, ochr yn ochr ag ansicrwydd strwythurol parhaus i weithwyr llawrydd a busnesau llai.

**Ffigur 3: Hyder mewn perfformiad yn y dyfodol (Cw9, 2022 i 2025)**





Disgrifiad o Ffigur 3: Mae hyn yn dangos hyder hunan-adroddedig ymatebwyr o ran rhedeg eu busnes yn broffidiol yn y flwyddyn ariannol nesaf ar draws tonnau arolwg (2022 i 2025). Mae hyder yn cael ei fesur ar raddfa pum pwynt, o 'ddim yn hyderus o gwbl' i 'hyderus iawn' ac mae'n darparu cyd-destun ar gyfer newidiadau mewn hyder cyffredinol dros amser.

Noder: Yr holl ymatebwyr sy'n ateb Cw9 ym mhob ton; mae'r sylfaen yn amrywio yn ôl blwyddyn (2022: n=341; 2023: n=639; 2024: n=808; 2025: n=604).

Er bod hyder cyffredinol wedi gwella dros amser (Ffigur 3), mae amrywiad nodedig yn ôl sector. Mae Ffigur 4 yn dangos bod lefelau hyder yn wahanol ar draws is-sectorau creadigol yn 2025, gan helpu i esbonio rhai o'r patrymau anwastad a arsylwyd.

**Ffigur 4: Hyder mewn perfformiad yn y dyfodol yn ôl sector (Cw9, 2025)**




Disgrifiad o Ffigur 4: Mae hwn yn dangos hyder mewn perfformiad busnes yn y dyfodol yn ôl sector creadigol ar gyfer Ton 4 o Arolwg Diwydiant Cymru Greadigol (N=604). Mae'r ffigur yn dangos amrywiad mewn lefelau hyder ar draws sectorau, yn seiliedig ar atebion i raddfa hyder pum pwynt, ac yn darparu cyd-destun ar gyfer gwahaniaethau ar lefel sector a drafodir yn y testun.

Roedd hyder ar ei uchaf yn y sector Digidol, gyda 34% yn nodi eu bod yn hyderus iawn, o'i gymharu â lefelau is mewn sectorau fel Sgrin a Cherddoriaeth (17% yr un).

## 4.4. Cyrchu cyllid

Dywedodd oddeutu wyth o bob deg ymatebydd (79%) nad oeddent wedi derbyn unrhyw gyllid allanol yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Ymhlith y rhai a oedd wedi cael gafael ar gyllid, y ffynonellau a grybwyllwyd amlaf oedd grantiau Cymru Greadigol / Llywodraeth Cymru a'r Cyngor (Tabl 7).

**Tabl 7: Ffynonellau cyllid a gyrchwyd yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf (2025)**

| Ffynhonnell | 2025 |
|---|---|
| Grantiau Cymru Greadigol neu Lywodraeth Cymru | 7% |
| Grantiau'r Cyngor | 6% |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | 5% |
| Cyngor Llyfrau Cymru | 2% |
| Grant ardrethi busnes | 1% |
| Cyllid y Loteri Genedlaethol | 1% |
| Media Cymru | 1% |
| Y Gronfa Ffyniant Gyffredin | 1% |
| UK Games Fund | <1% |
| Grantiau hunangyflogaeth | <1% |
| Arall | 4% |

Nodyn: gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un opsiwn (N=604).

Disgrifiad o Dabl 7: Mae hwn yn dangos y ffynonellau cyllid allanol a gyrchwyd gan ymatebwyr yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, yn seiliedig ar gwestiwn aml-ateb (Cw10). Mae'r tabl yn cyflwyno cyfran yr ymatebwyr sy'n adrodd pob ffynhonnell ariannu ac yn darparu cyd-destun ar gyfer patrymau cyrchu cyllid a drafodir yn y testun.

Mae adborth ansoddol yn tynnu sylw at ddibyniaeth barhaus ar gyllid prosiect tymor byr a phryderon am gynaliadwyedd. Dylid dehongli'r themâu hyn ochr yn ochr â'r cyfyngiadau a amlinellir yn Adran 2.7, yn enwedig o ran amrywiaeth cyrchu gwybodaeth ariannol yr ymatebwyr.

## 4.5. Safbwyntiau o atebion agored

Mae atebion agored yn darparu cyd-destun ychwanegol i'r canfyddiadau meintiol ar drosiant a hyder. Er nad yw'r safbwyntiau hyn yn gynrychioliadol o'r holl ymatebwyr, maent yn tynnu sylw at themâu a godwyd yn aml gan ymatebwyr yn Nhon 4 (2025).

**Thema 1: Ansicrwydd parhaus ac anwadalrwydd incwm**

Disgrifiodd llawer o ymatebwyr lwyth gwaith amrywiol ac anhawster rhagweld incwm yn y dyfodol. Roedd hyn yn arbennig o amlwg ymhlith gweithwyr llawrydd a sefydliadau llai sy'n dibynnu ar waith prosiect.

Ymhlith y materion cyffredin a godwyd roedd ansicrwydd ynghylch piblinellau comisiynu, bylchau rhwng prosiectau, ac anhawster cynllunio y tu hwnt i'r tymor byr.

Mae'r pryderon hyn yn adleisio tonnau cynharach ond cawsant eu codi'n amlach yn 2025. Disgrifiodd rhai ymatebwyr sut roedd cyfnodau cynharach o gyllid neu weithgarwch prosiect wedi lleihau, gan gyfrannu at ansicrwydd tymor hwy i rannau o'r sector.

> “Goblygiadau Brexit. Mae tonnau o gyllid wedi diflannu ac erbyn hyn mae effeithiau wedi ymgorffori mewn diwydiant."
>
> (Cyflogwr, Digidol, De-ddwyrain Cymru)

**Thema 2: Pwysau costau yn effeithio ar gynaliadwyedd**

Cyfeiriodd ymatebwyr yn aml at gostau cynyddol yn effeithio ar eu gallu i weithredu'n gynaliadwy, gan gynnwys ynni, staffio a phwysau economaidd ehangach. Nododd sawl un, hyd yn oed lle’r oedd gwaith ar gael, roedd elw yn mynd yn llai ac roedd hyfywedd hirdymor yn teimlo'n ansicr.

> "Y cynnydd yn yr Yswiriant Gwladol, tariffau, AI, Canva (y rhaglen ddylunio ar-lein sy'n gallu gwneud popeth roeddwn i’n ei wneud) ac ati. Nid adferodd busnes erioed o'r cyfnod yn arwain at y gyllideb. Rwy'n stopio'r busnes oherwydd nid oes sicrwydd."
>
> (Hunangyflogedig, Digidol, Canolbarth Cymru)
>
> "Marchnad gythryblus iawn, mwy o gystadleuaeth am lai o waith."
>
> (Cyflogwr, Sgrin, De-ddwyrain Cymru)

**Thema 3: Optimistiaeth ofalus ymhlith rhai ymatebwyr**

Ochr yn ochr â'r pwysau hyn, mynegodd nifer llai o ymatebwyr hyder am y flwyddyn i ddod. Roedd hyn yn aml yn gysylltiedig â:

- enw da sefydledig
- ffrydiau incwm amrywiol
- gwaith wedi'i gadarnhau ar gyfer y dyfodol

Gyda'i gilydd, mae'r adborth ansoddol yn awgrymu bod gwytnwch yn anwastad ar draws y sector. Er bod rhai ymatebwyr wedi adrodd am incwm gwell neu berfformiad cryf yn 2024, disgrifiodd eraill bwysau ariannol ac ansicrwydd parhaus yn dibynnu ar eu rôl, eu graddfa a'u model busnes.

Roedd yna hefyd rai gwahaniaethau o ran pwy oedd yn adrodd am brofiadau mwy cadarnhaol. Disgrifiwyd atebion cadarnhaol yn fwy cyffredin gan gyflogwyr a pherchnogion busnes, yn aml yn gysylltiedig â galw cynyddol, arallgyfeirio neu ffrydiau incwm newydd. Yn ôl sector, roedd ymatebwyr Digidol yn fwy tebygol o ddisgrifio twf sy'n gysylltiedig ag arloesi a ffyrdd newydd o weithio, tra bod atebion Sgrin yn adlewyrchu uchafbwyntiau mwy seiliedig ar brosiectau. Mewn Cerddoriaeth, roedd optimistiaeth yn fwy aml yn gysylltiedig â chynnydd cynyddol yn y galw a'r gwelededd, tra bod atebion Cyhoeddi yn cyfeirio at dwf mwy cymysg neu fanteisgar.

Fel y nododd un ymatebydd:

> "Arweiniodd refeniw hysbysebu o lwyfannau SVOD[1] yn lansio haenau newydd a ariennir gan hysbysebion yn 2024 at y flwyddyn fwyaf proffidiol mewn bron i 20 mlynedd o fasnachu."
> (Cyflogwr, Sgrin, De-ddwyrain Cymru)

Mae'r themâu ansoddol hyn yn helpu i esbonio pam mae ffigyrau cyfanredol yn dangos sefydlogrwydd cyffredinol ochr yn ochr â lleiafrif parhaus sy'n adrodd am drosiant sy'n gostwng.

---

[1] Mae SVOD yn cyfeirio at lwyfannau ffrydio fideo ar alw tanysgrifio.


# 5. Gweithlu, sgiliau a recriwtio

## 5.1. Gweithgarwch recriwtio

Yn 2025, nododd 78% o fusnesau nad oedd unrhyw weithgarwch recriwtio yn y 12 mis blaenorol, cynnydd ers 2024 (64%) a 2023 (63%).

Lle digwyddodd recriwtio, roedd yn fwyaf cyffredin drwy sianeli anffurfiol. Ar lafar oedd y dull a grybwyllwyd amlaf (62%), ac yna ffynonellau ar-lein (33%) a'r cyfryngau cymdeithasol (32%). Defnyddiwyd llwybrau recriwtio mwy ffurfiol fel asiantaethau (11%) a chyfeiriaduron gweithwyr llawrydd (10%) yn llai aml. Mae hyn yn awgrymu bod recriwtio o fewn y sector yn aml yn dibynnu ar rwydweithiau proffesiynol presennol yn hytrach na phrosesau recriwtio ffurfiol.

**Ffigur 5: Gweithgarwch recriwtio (Cw11, 2025)**




Noder: gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un opsiwn. Sylfaen: ymatebwyr a adroddodd weithgarwch recriwtio yn y 12 mis blaenorol (2025, n=556).

Disgrifiad o Ffigur 5: Mae hwn yn dangos y dulliau a ddefnyddiwyd gan ymatebwyr i recriwtio staff neu gydweithredwyr yn y 12 mis blaenorol (2025). Ar lafar oedd y sianel recriwtio a adroddwyd amlaf, ac yna ffynonellau ar-lein a'r cyfryngau cymdeithasol.

Roedd rhywfaint o amrywiad yn ôl sector. Roedd argymhellion llafar yn arbennig o amlwg yn y sectorau Sgrin a Chyhoeddi, tra bod busnesau Digidol yn fwy tebygol o ddefnyddio ffynonellau ar-lein. Defnyddiwyd cyfryngau cymdeithasol yn fwy cyffredin hefyd yn y sectorau Sgrin a Digidol, ac roedd y defnydd o asiantaethau ychydig yn uwch ymhlith ymatebwyr Sgrin. Fodd bynnag, roedd y patrwm cyffredinol yn parhau i fod yn gyson ar draws sectorau, gyda dulliau anffurfiol a rhwydweithiol yn flaenllaw.

## 5.2. Heriau recriwtio

Ymhlith y rhai a oedd wedi recriwtio, prinder sgiliau a chyfyngiadau cyflog oedd yr heriau mwyaf cyffredin. Tynnodd rhai ymatebwyr sylw hefyd at faterion cadw, yn enwedig rhai sy'n gysylltiedig â chontractau tymor byr, ansicrwydd ariannol a chyfleoedd dilyniant cyfyngedig. Mewn rhai achosion, disgrifiodd cyflogwyr heriau cadw staff lle nad oedd sefydliadau yn gallu cynnig cytundebau tymor hwy neu gyflog cystadleuol.

Roedd atebion eraill yn adlewyrchu profiadau gweithwyr llawrydd ac unigolion sy'n gweithio yn y sector, a ddisgrifiodd ansicrwydd ariannol ac incwm afreolaidd fel ffactorau sy'n effeithio ar eu gallu i aros mewn rolau creadigol.

> "Cronfeydd cyfyngedig"
>
> (Cyflogwr, Cyhoeddi, De-orllewin Cymru)
>
> "Oherwydd nad ydw i'n ennill digon dros y flwyddyn i dalu am gostau byw. Nid yw tâl fy rôl yn ddigon da i fy nghadw i fynd dros dro pan fyddaf rhwng cynyrchiadau."
>
> (Gweithiwr llawrydd, Sgrin, Gogledd Cymru)
>
> "Mae mwy a mwy o bobl yn gadael y diwydiant creadigol i ymuno â swyddi llawn amser mewn diwydiannau eraill."
>
> (Gweithiwr Llawrydd, Digidol, De-ddwyrain Cymru)

## 5.3. Bylchau mewn sgiliau ac anghenion hyfforddi

Gostyngodd cyfran y busnesau sy'n adrodd am fylchau mewn sgiliau cyfredol neu ragweledig i 15% yn 2025, o'i gymharu â 23% yn 2024 a 21% yn 2023. Er ei fod yn is nag mewn tonnau blaenorol, mae hyn yn dangos bod bylchau mewn sgiliau yn parhau i fod yn broblem barhaus i rannau o'r sector.

Yn nhon 2025, y meysydd a grybwyllwyd amlaf oedd:

- sgiliau technegol sector-benodol
- sgiliau digidol a thechnolegol


- marchnata a brandio
- rheoli ac arweinyddiaeth

Er gwaethaf yr adrodd am fylchau mewn sgiliau, mae'r ddarpariaeth hyfforddiant ffurfiol yn parhau i fod yn gyfyngedig. Yn Nhon 4, dywedodd llai na chwarter y busnesau eu bod yn darparu hyfforddiant neu ddatblygu sgiliau i staff. Lle cynhaliwyd hyfforddiant, roedd yn aml yn cael ei gyflwyno'n anffurfiol neu'n fewnol.

Cyfeiriwyd at ddarpariaeth allanol, gan gynnwys drwy golegau, awdurdodau lleol neu ddarparwyr hyfforddiant a enwir, yn llai aml gan ymatebwyr. Mae hyn yn awgrymu, er bod cyfleoedd hyfforddi allanol yn bodoli, gall ymgysylltu â'r llwybrau mwy strwythuredig hyn fod yn is, neu nad ydynt bob amser yn weladwy neu'n hygyrch i bob busnes.

Mae canfyddiadau ynghylch cyrchu hyfforddiant yn adlewyrchu'r patrwm hwn. Roedd dros hanner yr ymatebwyr yn teimlo nad oedd yn hawdd nac yn anodd cyrchu cyfleoedd hyfforddi a datblygu sgiliau perthnasol. Mae hyn yn awgrymu, er bod cyfleoedd yn bodoli, efallai na fyddant bob amser yn weladwy, yn fforddiadwy neu'n cyd-fynd ag anghenion y sector.

**Ffigur 6: Bylchau mewn sgiliau a nodwyd gan fusnesau (Cw16c, 2025)**





Noder: gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un opsiwn (N = 95).

Disgrifiad o Ffigur 6: Mae hyn yn dangos y bylchau mewn sgiliau a nodwyd gan fusnesau yn Nhon 4 Arolwg Diwydiant Cymru Greadigol (Cw16c). Mae'r ffigur yn cyflwyno cyfran y

busnesau sy'n crybwyll pob maes sgiliau ac yn darparu cyd-destun ar gyfer deall anghenion datblygu'r gweithlu ymhlith sefydliadau.

**Ffigur 7: Bylchau sgiliau a nodwyd gan weithwyr llawrydd (Cw16c, 2025)**




Noder: gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un opsiwn (N = 14). Dylid dehongli canfyddiadau ar gyfer gweithwyr llawrydd yn ofalus oherwydd maint bach y sylfaen.

Disgrifiad o Ffigur 7: Mae hyn yn dangos y bylchau mewn sgiliau a nodwyd gan weithwyr llawrydd yn Nhon 4 Arolwg Diwydiant Cymru Greadigol (Cw16c). Mae'r ffigur yn dangos yr ystod o feysydd sgiliau lle mae gweithwyr llawrydd yn adrodd am fylchau neu anghenion datblygu, gan ddarparu cyd-destun ar gyfer gwahaniaethau rhwng profiadau llawrydd a busnes.

Mae cyfeiriadau at sgiliau AI a thechnoleg ehangach yn ymddangos ymhlith y bylchau mewn sgiliau a nodwyd gan fusnesau a gweithwyr llawrydd. Roedd busnesau'n fwy tebygol o adrodd am fylchau sy'n gysylltiedig â datblygiad AI (20%), o'i gymharu â 4% o weithwyr llawrydd, sy'n awgrymu ymwybyddiaeth gynyddol o offer sy'n dod i'r amlwg a newid mewn arferion cynhyrchu o fewn sefydliadau.

O'i gymharu â busnesau, roedd gweithwyr llawrydd yn fwy tebygol o adrodd bylchau mewn sgiliau technegol sector-benodol (38% o'i gymharu â 22%) a sgiliau Cymraeg (30% o'i gymharu â 7%). Mewn cyferbyniad, roedd busnesau'n nodi bylchau mewn sgiliau sy'n gysylltiedig â gallu sefydliadol, gan gynnwys sgiliau rheoli (16% o'i gymharu ag 11% ymhlith gweithwyr llawrydd) yn amlach. Gall y gwahaniaethau hyn adlewyrchu rolau gwahanol

gweithwyr llawrydd a sefydliadau o fewn y sector, gyda gweithwyr llawrydd yn canolbwyntio mwy ar sgiliau cynhyrchu technegol wrth i fusnesau adrodd am anghenion gallu gweithredol a strategol ehangach.

## 5.4. Mewnwelediadau ansoddol: gweithlu a recriwtio

Mae atebion agored yn tynnu sylw at heriau gweithlu parhaus. Mae adborth yn dangos bod profiadau'n amrywio yn ôl lleoliad, gydag ymatebwyr y tu allan i dde-ddwyrain Cymru yn fwy tebygol o gyfeirio at rwystrau cyrchu, costau teithio a llai o gyfleoedd lleol. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu mewn sylwadau am leoliadau gwledig, gofynion teithio a chronfeydd talent lleol cyfyngedig.

**Thema 1: Prinder sgiliau a rolau arbenigol**

Disgrifiodd ymatebwyr anhawster recriwtio unigolion â sgiliau technegol arbenigol, sgiliau amlddisgyblaethol a phrofiad penodol i'r sector, yn enwedig yn y sectorau Sgrin a Digidol.

> "Mae angen sgiliau rhaglennu penodol iawn ar gyfer y busnes."
> (Gweithiwr, Digidol, De-ddwyrain Cymru)

> "Does dim digon o ymgeiswyr gyda'r profiad perthnasol."
> (Gweithiwr, Digidol, De-ddwyrain Cymru)

> "Does dim llawer o ddehonglwyr BSL sy'n siarad Cymraeg, felly maen nhw'n cael eu gor-archebu. Mae ein prosiectau'n canolbwyntio ar ddefnyddio gweithwyr llawrydd anabl, felly mae'n anodd dod o hyd i weithwyr llawrydd anabl sydd hefyd yn siarad Cymraeg."
> (Hunangyflogedig, Cerddoriaeth, De-ddwyrain Cymru)

> "Staff technegol stiwdio - mae'r gronfa bresennol yn dod yn agosach at ymddeol ac nid oes llawer ar y lefel mynediad gyda'r nifer briodol o sgiliau."
> (Gweithiwr, Sgrin, De-ddwyrain Cymru)

**Thema 2: Ansefydlogrwydd a dibynnu ar weithwyr llawrydd**

Disgrifiodd llawer o ymatebwyr sy'n gweithio o fewn sefydliadau ddibyniaeth ar weithwyr llawrydd oherwydd ansicrwydd ariannu, prosiectau tymor byr a gallu cyfyngedig i gynnig rolau parhaol. Disgrifiodd gweithwyr llawrydd, yn eu tro, ansicrwydd a mwy o gystadleuaeth am waith.

> "Yn draddodiadol yn swydd i staff, mae angen gweithwyr llawrydd arnaf."
>
> (Gweithiwr, Sgrin, De-ddwyrain Cymru)

"Nifer fach o fasnachwyr medrus sydd yn y maes Sgrin - dim hyfforddiant pwrpasol a swyddi cyfyngedig. Dim ond cyflog cyfyngedig sydd ar gael fel prosiect a ariennir. Mae gan ymgeiswyr sgiliau ymgeisio gwael. Ymgeiswyr sydd heb ddigon o gymwysterau ar gyfer rôl arbenigol (h.y. gwneuthurwyr ffilm yn gwneud cais am rôl farchnata ac yn rhestru profiad cyfyngedig) - diffyg dealltwriaeth o'r hyn sydd dan sylw."

(Gweithiwr, Sgrin, De-ddwyrain Cymru)

"Mae mwy a mwy o bobl yn gadael y diwydiant creadigol i ymuno â swyddi llawn amser mewn diwydiannau eraill ac nid ydynt ar gael i weithio fel yr oeddent yn arfer ei wneud fel gweithwyr llawrydd. Mae mwy o bobl yn gwneud cais am yr un galwadau agored ac mae llai a llai o gomisiynau ar gael. Mae pobl a fyddai fel arfer yn gwneud cais am alwadau agored cyllideb fwy a swyddi lefel uwch bellach yn gwneud cais am swyddi ar raddfa is felly mae llai ar gael i fusnesau lefel mynediad canolig."

(Gweithiwr Llawrydd, Digidol, De-ddwyrain Cymru)

**Thema 3: Cyfyngiadau daearyddol**

Tynnodd ymatebwyr y tu allan i ganolfannau trefol mawr sylw at anhawster denu ymgeiswyr, rhwystrau teithio ac adleoli a chronfeydd talent lleol cyfyngedig. Mae'r materion hyn yn adlewyrchu tonnau cynharach ond yn parhau heb eu datrys.

"Rydym wedi'n lleoli mewn sir wledig ac mae cysylltiadau cludiant cyhoeddus yn wael. Mae prinder y sgiliau hyn yn yr ardal hon."

(Gweithiwr, Digidol, De-orllewin Cymru)

"Lleoliad y gwaith"
(Cyflogwr, Digidol, Gogledd Cymru)

"Mae'r rhan fwyaf o fy nghyflogwyr yn ne Cymru ac yn fy niystyru oherwydd bod rhaid talu am lety gan fy mod i'n byw yn y Gogledd."

(Gweithiwr llawrydd, Sgrin, Gogledd Cymru)


# 6. Ymwybyddiaeth o Gymru Greadigol ac anghenion cymorth yn y dyfodol

## 6.1. Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth

Mae ymwybyddiaeth o Gymru Greadigol yn parhau i fod yn uchel yn 2025, gyda 71% o'r ymatebwyr yn dweud eu bod wedi clywed am Gymru Greadigol (Cw19). Mae hyn yn gyson â thonnau blaenorol (67% yn 2024 a 61% yn 2023).

Ymhlith y rhai a oedd yn ymwybodol o Gymru Greadigol, roedd 84% hefyd yn deall ei fod yn rhan o Lywodraeth Cymru (Cw20), fel y dangosir yn Ffigur 8.

**Ffigur 8: Ymwybyddiaeth o Gymru Greadigol (Cw20, 2024 i 2025)**




Disgrifiad o Ffigur 8: Mae hyn yn dangos ymwybyddiaeth ymatebwyr o Gymru Greadigol fel rhan o Lywodraeth Cymru (Cw20) ar draws tonnau arolwg 2024 a 2025 (2024: n=808; 2025: n=604). Mae'r ffigur yn darparu cyd-destun ar gyfer newidiadau mewn ymwybyddiaeth gyffredinol dros amser.

Er bod ymwybyddiaeth gyffredinol yn gryf, mae atebion ansoddol yn awgrymu amrywiad parhaus yn y ddealltwriaeth o gylch gwaith llawn Cymru Greadigol.

> "Hoffwn gael cefnogaeth ond dwi ddim yn gwybod beth sydd ar gael."
>
> (Cyflogwr, Digidol, Gogledd Cymru)
>
> "Unrhyw gefnogaeth y gallant ei roi mewn gwirionedd."
>
> (Gweithiwr, Sgrin, De-ddwyrain Cymru)
>
> "Ddim wedi ei gynnwys yn eich cynlluniau, mae'n ddibwrpas."
>
> (Gweithiwr Llawrydd, Digidol, De-ddwyrain Cymru)
>
> "Arweiniad ar grantiau sydd ar gael a sut i ymgeisio amdanynt - gallwn wario £5k ar Grantify ar gyfer hyn ond does gen i ddim yr arian ar hyn o bryd ac rwy'n teimlo ei fod y math o wybodaeth sy'n debygol o fodoli yn y sefydliad."
>
> (Hunangyflogedig, Cyhoeddi, De-orllewin Cymru)

## 6.2. Canfyddiadau ynghylch cefnogaeth

Mae'r safbwyntiau ynghylch pa mor dda mae Cymru Greadigol yn cynorthwyo'r sector yn gymysg, gyda llawer o ymatebwyr yn dewis graddfeydd canolig.

Mae adborth ansoddol yn tynnu sylw at bryderon ynghylch hygyrchedd, cydbwysedd daearyddol a pherthnasedd i weithwyr llawrydd a microfusnesau. Pan ofynnwyd iddynt sut y gallai Cymru Greadigol eu cynorthwyo yn y dyfodol, tynnodd ymatebwyr sylw at yr angen am fwy o gydbwysedd rhanbarthol a mwy o gefnogaeth wedi'i thargedu:

> "Stwff wedi'i leoli yng ngogledd Cymru – creadigrwydd a dylunio."
>
> (Hunangyflogedig, Cerddoriaeth, Gogledd Cymru)
>
> "Mwy o ddigwyddiadau yng ngogledd-ddwyrain Cymru (Wrecsam)."
>
> (Hunangyflogedig, Cerddoriaeth, Gogledd Cymru)
>
> "Rhoi grant i'm sector ar gyfer llety wrth gyflogi pobl o ogledd Cymru – ni ddylem fod ar ein colled dim ond oherwydd y teithio."
>
> (Gweithiwr llawrydd, Sgrin, Gogledd Cymru)
>
> "Help wrth dendro ar gyfer gwaith (nid ydym yn 'rhwydweithio'). Nid oes gennym y gallu i dendro am lawer o waith, gan fod rhaniad rhwng y Gogledd a'r De ac rydym yn fusnes teuluol bach."
>
> (Cyflogwr, Cyhoeddi, Gogledd Cymru)

## 6.3. Blaenoriaethau cymorth yn y dyfodol

Gofynnwyd i'r ymatebwyr sut y gallai Cymru Greadigol eu cynorthwyo yn y dyfodol. Mae canfyddiadau o Don 4 yn dangos ffocws parhaus ar gymorth ymarferol ac ariannol, ochr yn ochr â datblygu sgiliau a chyrchu cyfleoedd (Ffigur 9).

Y blaenoriaethau a nodwyd amlaf yn 2025 oedd:

- cymorth ariannol (43%)
- cyfleoedd i rwydweithio (20%)
- help gyda marchnata, hyrwyddo a gwelededd (19%)
- cymorth a chyngor busnes (13%)

Noder: gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un opsiwn.


O'i gymharu â thonnau cynharach, mae’r atebion yn 2025 yn rhoi pwyslais cymharol fwy ar gynaliadwyedd a gwytnwch hirdymor, yn hytrach nag adferiad tymor byr. Yn benodol, tynnodd ymatebwyr sylw at bwysigrwydd cefnogaeth graidd a datblygiadol i sefydliadau llai

a gweithwyr llawrydd, gan gynnwys cymorth gyda datblygu busnes, tendro a thwf y gweithlu.

Mae atebion agored yn atgyfnerthu'r darlun hwn. Galwodd ymatebwyr am gyllid sy'n cynorthwyo capasiti parhaus, llwybrau cliriach i brentisiaethau a chyflogaeth, a chymorth sy'n helpu busnesau i gynllunio y tu hwnt i brosiectau unigol. Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau'n awgrymu, er bod ymwybyddiaeth o Gymru Greadigol yn uchel, bod galw mawr o hyd am gymorth sy'n hygyrch, yn gynaliadwy ac yn cyd-fynd â'r realiti o weithredu mewn sector sy'n seiliedig ar brosiectau yn bennaf.

> "Cronfeydd datblygu busnes creadigol sy'n mynd yn uniongyrchol i gwmnïau bach. Mae hyn yn helpu i adeiladu datblygiad creadigol, yn dod â chyllidebau i Gymru ac yn tyfu a chefnogi'r gweithlu. Mae cefnogaeth graidd yn llawer mwy defnyddiol. Torrwch allan y sefydliadau 'dynion canol' fel Media Cymru."
>
> (Cyflogwr, Sgrin, De-orllewin Cymru)
>
> "Gwell cynlluniau i ddod â gweithwyr / prentisiaid i mewn. Mynediad i fannau swyddfa gwledig - mae'r costau'n uchel iawn ac mae’n anodd dod o hyd iddynt. Cymorth ar gyfer y 12 mis cyntaf. Desgio hyblyg er enghraifft."
>
> (Gweithiwr llawrydd, Digidol, Gogledd Cymru)
>
> "Cyllid / cymorth i weithio gydag ymgynghorwyr busnes creadigol sy'n cael ei gynnig gan Creative UK ond na allwn ei gyrchu yng Nghymru. Mae hyn yn rhan wirioneddol annatod o helpu busnes i dyfu."
>
> (Cyflogwr, Sgrin, De-ddwyrain Cymru)
>
> "Cymorth gydag ysgrifennu'r tendrau a darparu cynnwys."
>
> (Cyflogwr, Cyhoeddi, De-ddwyrain Cymru)

**Ffigur 9: Anghenion cymorth yn y dyfodol a nodwyd gan ymatebwyr, 2022 i 2025**





Noder: gallai ymatebwyr ddewis hyd at 3 opsiwn. Yr holl ymatebwyr a oedd yn ateb Cw21 ym mhob ton (2022: n=341; 2023: n=639; 2024: n=808; 2025: n=604).

Disgrifiad o Ffigur 9: Mae hwn yn dangos sut y nododd ymatebwyr ar draws tonnau arolwg (2022 i 2025) y gallai Cymru Greadigol eu cynorthwyo yn y dyfodol (Cw21). Mae atebion yn seiliedig ar gwestiwn aml-ateb ac yn darparu cyd-destun ar gyfer blaenoriaethau ac anghenion cymorth sy’n newid dros amser.

## 6.4. Cyfathrebu gan Gymru Greadigol


Mae atebion i'r adran hon yn dangos safbwyntiau cymysg ar ba mor effeithiol mae Cymru Greadigol yn cyfleu'r hyn y mae'n ei wneud a sut y gall helpu, gyda llawer o ymatebwyr yn dewis graddfeydd canolig yn hytrach na mynegi safbwyntiau cadarnhaol neu negyddol cryf. Mae hyn yn awgrymu, er bod Cymru Greadigol yn weladwy ar draws y sector, nid yw cyfathrebu bob amser yn arwain at ddealltwriaeth glir neu hyder ymhlith yr holl gynulleidfaoedd.

**Ffigur 10: Canfyddiadau o gyfathrebu Cymru Greadigol, yn ôl rhanbarth (2025)**




Disgrifiad o Ffigur 10: Mae hyn yn dangos sut mae ymatebwyr yn graddio pa mor dda y mae Cymru Greadigol yn cyfleu (Cw22) yr hyn y mae'n ei wneud a sut y gall helpu, yn ôl rhanbarth (N=604). Mae graddfeydd yn seiliedig ar raddfa pum pwynt o 'da iawn' i 'ddim yn dda iawn' ac yn darparu cyd-destun ar gyfer amrywiad rhanbarthol mewn canfyddiadau o gyfathrebu.

**Ffigur 11: Canfyddiadau o gyfathrebu Cymru Greadigol, yn ôl sector (2025)**



Disgrifiad o Ffigur 11: Mae hyn yn dangos sut mae ymatebwyr yn graddio pa mor dda mae Cymru Greadigol yn cyfleu (Cw22) yr hyn y mae'n ei wneud a sut y gall helpu, yn ôl sector (N=604). Mae'r ffigur yn dangos amrywiad mewn canfyddiadau ar draws is-sectorau creadigol ac yn darparu cyd-destun ar gyfer gwahaniaethau ar lefel sector a drafodir yn y testun.

Mae patrymau yn ôl rhanbarth yn dangos rhywfaint o amrywiad, ond mae canfyddiadau cyffredinol o gyfathrebu Cymru Greadigol yn fras yn debyg ledled Cymru. Roedd amrywiad yn ôl sector ychydig yn fwy amlwg nag amrywiad yn ôl rhanbarth. Roedd ymatebwyr Sgrin a Digidol yn fwyaf tebygol o roi sgôr gadarnhaol i gyfathrebu Cymru Greadigol (32% a 34% yn y drefn honno yn ei raddio'n 4 neu 5), tra bod ymatebwyr Cerddoriaeth ychydig yn llai cadarnhaol ac yn fwy tebygol o ddewis sgoriau is. Fodd bynnag, ar draws pob sector, sgoriau canol-ystod oedd y mwyaf cyffredin, gan nodi canfyddiadau cymysg ond fras debyg o gyfathrebu.

Mae adborth agored sy'n gysylltiedig â dewisiadau cyfathrebu yn tynnu sylw at awydd am ffurfiau mwy uniongyrchol, amserol a hygyrch o ymgysylltu, yn hytrach na dibynnu ar gyhoeddiadau ffurfiol neu gyfleoedd untro. Cyfeiriodd ymatebwyr yn aml at bwysigrwydd arweiniad clir, ymatebolrwydd a diweddariadau rheolaidd, gan awgrymu bod cyfathrebu nid yn unig yn ymwneud ag ymwybyddiaeth, ond hefyd ynghylch perthnasoedd parhaus ac ymddiriedaeth. Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod lle i Gymru Greadigol gryfhau cyfathrebu drwy:

- wneud gwybodaeth am gylch gorchwyl, cymhwysedd a chyfleoedd yn haws i'w llywio
- defnyddio cymysgedd ehangach o sianeli cyfathrebu
- sicrhau bod negeseuon yn cyrraedd gweithwyr llawrydd a microfusnesau mor effeithiol â sefydliadau mwy

Drwy gyfathrebu gwell, mae potensial i gynorthwyo mwy o ymgysylltiad â'r ddarpariaeth bresennol, yn enwedig ymhlith y rhai sy'n ymwybodol o Gymru Greadigol ond sy'n parhau i fod yn ansicr ynglŷn â sut mae’n berthnasol iddyn nhw, neu a yw'n berthnasol iddyn nhw.

## 6.5. Mewnwelediadau ansoddol: canfyddiadau o gefnogaeth

Mae atebion agored yn rhoi mewnwelediad i sut mae Cymru Greadigol yn cael ei ystyried.

**Thema 1: Ymwybyddiaeth uchel, dealltwriaeth gymysg**

Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn ymwybodol o Gymru Greadigol, roedd rhai:

- yn ei ystyried yn bennaf fel corff cyllido
- yn ei gysylltu'n gryfach â Sgrin nag â sectorau eraill

Mae hyn yn awgrymu bod lle i gyfathrebu’n gliriach ynghylch cylch gwaith a chymhwysedd.

**Thema 2: Awydd am gymorth mwy hygyrch a chynhwysol**

Roedd ymatebwyr yn galw'n aml am:

- lwybrau cliriach at gymorth
- cyfleoedd sy'n fwy cytbwys o ran rhanbarthau
- mwy o berthnasedd i weithwyr llawrydd a microfusnesau

**Thema 3: Canolbwyntio ar gynaliadwyedd yn hytrach na thwf**

Roedd anghenion cymorth a fynegwyd yn Nhon 4 yn ymwneud llai ag ehangu a mwy â'r canlynol:

- cynaliadwyedd ariannol
- llesiant y gweithlu
- gwytnwch mewn cyd-destun economaidd heriol

Mae hyn yn cynrychioli newid cynnil mewn pwyslais o'i gymharu â thonnau cynharach.

## 6.6. Sianeli cyfathrebu dewisol

Mae atebion i gwestiynau ar sianeli cyfathrebu dewisol yn dangos ffafriaeth glir i ffurfiau uniongyrchol, syml a dibynadwy o gyswllt. E-bost oedd y sianel y cyfeiriwyd ato amlaf, gan adlewyrchu ei bwysigrwydd parhaus ar gyfer rhannu gwybodaeth am gyllid, cyfleoedd a diweddariadau sector mewn ffordd y gall ymatebwyr eu cyrchu ac ailymweld â nhw yn eu hamser eu hunain. Ochr yn ochr â hyn, mynegodd rhai ymatebwyr awydd am ffurfiau mwy personol a sgyrsiol o ymgysylltu, fel trafodaethau un-i-un, sgyrsiau anffurfiol neu gyfarfodydd ar-lein byr. Mae hyn yn awgrymu bod cyfathrebu yn cael ei werthfawrogi, mewn rhai rhannau o'r sector, nid yn unig fel ffordd o rannu gwybodaeth ond hefyd fel ffordd o feithrin dealltwriaeth ac ymddiriedaeth.

Tynnodd nifer llai o ymatebwyr sylw at ddiddordeb mewn diweddariadau byr, amserol, gan gynnwys cyfathrebiadau testun neu restrau postio wedi'u creu'n bwrpasol, gan nodi awydd am negeseuon cryno, wedi'u targedu yn hytrach na chyhoeddiadau hir neu achlysurol. Roedd ychydig o sôn hefyd am lwyfannau amgen fel cylchlythyrau neu ddiweddariadau sy'n seiliedig ar danysgrifiad, gan awgrymu cyfle posibl i amrywio fformatau wrth gadw sianeli cyfathrebu craidd yn syml. Ar y cyfan, mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod cyfathrebu effeithiol gan Gymru Greadigol yn ymwneud llai â chyflwyno llwyfannau newydd a mwy â:

- sicrhau bod gwybodaeth yn glir, yn amserol ac yn hawdd i'w llywio
- cynnal defnydd cyson o sianeli cyfarwydd, yn enwedig e-bost
- cynnig cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu uniongyrchol lle bo hynny'n briodol

Gallai sicrhau bod dulliau cyfathrebu yn cyd-fynd â'r dewisiadau hyn helpu i wella dealltwriaeth o gylch gwaith Cymru Greadigol a chynyddu ymgysylltiad â chymorth presennol a chymorth yn y dyfodol.

# 7. Casgliadau

Mae Ton 4 Arolwg Diwydiant Cymru Greadigol yn rhoi darlun clir o'r diwydiannau creadigol yng Nghymru yn 2025. Mae'n defnyddio data arolwg ac adborth agored gan ymatebwyr ar draws sectorau, rhanbarthau a mathau o fusnes. Ar y cyfan, mae'r canfyddiadau'n dangos sector sy'n parhau i ymgysylltu ac ymrwymo, ond sydd dan bwysau parhaus oherwydd ansicrwydd ariannol, heriau'r gweithlu a chapasiti cyfyngedig. Ar draws pob un o bedair ton yr arolwg, mae sawl thema wedi parhau i fod yn gyson. Mae'r rhain yn cynnwys y gyfran uchel o ymatebwyr sy’n gyfarwyddwyr/perchnogion ac yn hunangyflogedig, dibyniaeth ar waith prosiect, a heriau parhaus sy'n gysylltiedig â datblygu sgiliau a recriwtio. Mae Ton 4 yn cadarnhau'r patrymau tymor hwy hyn ac yn dangos symud clir oddi wrth dwf tuag at gynnal gweithgarwch a gwytnwch. Mae hyn yn fwyaf amlwg ymhlith gweithwyr llawrydd a sefydliadau llai.

Mae ymwybyddiaeth o Gymru Greadigol yn parhau i fod yn uchel ac mae wedi cynyddu dros amser. Fodd bynnag, mae dealltwriaeth o'r hyn y mae Cymru Greadigol yn ei wneud a sut i gyrchu cymorth yn fwy cymysg. Er bod llawer o ymatebwyr yn ymwybodol o Gymru Greadigol, mae rhai yn parhau i fod yn aneglur ynghylch cymhwysedd, perthnasedd neu lwybrau at gymorth. Mae'r bwlch hwn rhwng ymwybyddiaeth a dealltwriaeth yn arbennig o amlwg ymhlith gweithwyr llawrydd ac ymatebwyr sy'n gweithio mewn sefydliadau llai, gan adlewyrchu heriau capasiti a mynediad ehangach a drafodir mewn mannau eraill yn yr adroddiad. Mae heriau gweithlu a sgiliau yn parhau i fod yn bryder allweddol. Er bod nifer gymharol fach o fusnesau wedi adrodd am broblemau recriwtio neu gadw diweddar, roedd y rhai a wnaeth yn cyfeirio gan amlaf at brinder sgiliau, anawsterau cynnig cyflog cystadleuol a chronfa gyfyngedig o ymgeiswyr addas. Disgrifiodd gweithwyr llawrydd ansicrwydd parhaus, mwy o gystadleuaeth am waith a phryderon am hyfywedd hirdymor. Gyda'i gilydd, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y materion hyn yn strwythurol yn hytrach na thymor byr.

Wrth edrych i’r dyfodol, tynnodd ymatebwyr sylw at gyllid a chymorth ariannol, datblygu sgiliau, cyngor busnes, a chyrchu cyfleoedd a rhwydweithiau fel y prif flaenoriaethau ar gyfer cymorth yn y dyfodol. O'i gymharu â thonnau cynharach, mae llai o ffocws ar dwf a mwy o bwyslais ar gynnal gweithgarwch a bywoliaethau presennol. Mae hyn yn adlewyrchu pwysau economaidd ehangach a realiti gweithio mewn sector sy'n seiliedig ar brosiectau i raddau helaeth. Yn gyffredinol, mae canfyddiadau Ton 4 yn dangos bod yr arolwg wedi cyflawni ei nodau drwy:

- ddarparu tystiolaeth ar amodau busnes, hyder a blaenoriaethau ar draws y diwydiannau creadigol yng Nghymru
- olrhain newid dros amser wrth gymharu â thonnau cynharach
- casglu mewnwelediad ansoddol i'r gweithlu, sgiliau ac anghenion cymorth
- nodi goblygiadau ar gyfer polisi, cyfathrebu a chymorth yn y dyfodol

Mae'r canfyddiadau yn tanlinellu pwysigrwydd cyfathrebu clir, cymorth hygyrch a buddsoddiad parhaus mewn sgiliau a datblygu'r gweithlu. Mae hyn yn arbennig o bwysig i weithwyr llawrydd a sefydliadau llai a bydd yn allweddol i gefnogi sector creadigol gwydn a chynhwysol yng Nghymru.

## Atodiad A: Holiadur Terfynol

# Arolwg Diwydiant Cymru Greadigol 2025

### Am y busnes

C1 **Ym mha un o'r is-sectorau canlynol mae eich busnes/ ydych chi'n weithgar ynddo ar hyn o bryd?**
- Cerddoriaeth ❑
- Sgrin ❑
- Digidol (gan gynnwys Animeiddio, Gemau, Trochi (Immersive), Createch) ❑
- Cyhoeddi ❑

C2 **Ym mha awdurdod lleol mae eich busnes/ ydych chi wedi'ch lleoli?**
- Blaenau Gwent ❑
- Penybont ❑
- Caerffili ❑
- Caerdydd ❑
- Sir Gaerfyrddin ❑
- Ceredigion ❑
- Conwy ❑
- Sir Ddinbych ❑
- Sir y Fflint ❑
- Gwynedd ❑
- Ynys Mon ❑
- Merthyr Tudful ❑
- Sir Fynwy ❑
- Castell-nedd Port Talbot ❑
- Casnewydd ❑
- Sir Benfro ❑
- Powys ❑
- Rhondda Cynon Taf ❑
- Abertawe ❑
- Torfaen ❑
- Bro Morgannwg ❑
- Wrecsam ❑
- Y tu allan i Gymru ❑

C3 Pa un o’r canlynol sy'n berthnasol i chi?
- Rwy'n hunangyflogedig ❑
- Rwy'n llawrydd ❑
- Rwy’n gyflogedig gan y cwmni ❑
- Rwy'n gyflogwr/cyfarwyddwr/perchennog y cwmni ❑

C4 **Pryd wnaeth y busnes/ chi ddechrau masnachu?**
- Yn y 2 flynedd diwethaf ❑
- 2-5 mlynedd yn ôl ❑
- 6-10 mlynedd yn ôl ❑
- Mwy na 10 mlynedd yn ôl ❑

C5 **Beth yw strwythur cyfreithiol y busnes (e.e., perchnogaeth unigol, partneriaeth, corfforaeth)?**

Perchnogaeth unigol/ masnachwr ❑
Cwmni cyfyngedig preifat, cyfyngedig drwy gyfrannau (LTD) ❑
Cwmni preifat cyfyngedig trwy warant ❑
Partneriaeth ❑
Partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ❑
Sefydliad Corfforedig Elusennol ❑
Arall ❑

**Arall (nodwch)**

______________________________

## Peidiwch â gofyn i weithwyr llawrydd: Cyflogaeth

C6 **Peidiwch â gofyn i weithwyr llawrydd/gweithwyr:Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, faint o bobl roedd eich busnes yn eu cyflogi sydd...?**

*Rhowch amcangyfrif o rif lle bo modd, os nad yw'n hysbys, rhowch un o'r ystodau canlynol fel amcangyfrif:*

*1-4 o weithwyr/ pobl, 5-9 o weithwyr/ pobl, 10-19 o weithwyr/ pobl, 20-49 o weithwyr/ pobl, 50-99 o weithwyr/ pobl, a 100+ o weithwyr/ pobl.*

Staff llawn amser ______________________________

Staff rhan-amser ______________________________

Gweithwyr llawrydd ______________________________

Prentisiaid ______________________________

Hyfforddeion ______________________________

Gwirfoddolwyr ______________________________

## Trosiant

C7 **Beth yw eich blaenoriaethau busnes ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod?** *Dewiswch eich tri ateb gorau yn unig.*

Cynyddu proffidioldeb ❑
Tyfu'r gweithlu ❑
Arallgyfeirio'r gweithlu ❑
Gweithredu arferion lles gwell ar gyfer y gweithlu/fi fy hun ❑
Cynnig ystod ehangach o wasanaethau ❑
Bod yn fwy cynaliadwy ❑
Rhwydweithio ❑
Gwella cyfleoedd marchnata ac ymwybyddiaeth brand ❑
Contractio fel busnes/sefydliad ❑

Cynnal y statws presennol / dal ati fel ag y mae ❑
Ansicr / Dim blaenoriaethau penodol ❑
Arall ❑

**Arall (nodwch)**

___

C8a **O'i gymharu â'ch blwyddyn ariannol ddiwethaf, a yw eich trosiant wedi cynyddu neu leihau?**

Cynyddu ❑
Lleihau ❑
Dim newid/ aros yr un peth ❑

C8b **Os yw wedi cynyddu neu leihau:O'i gymharu â'ch blwyddyn ariannol ddiwethaf, faint mae hwn wedi {V1}?**

Llai nag 1% ❑
1-20% ❑
21-40% ❑
41-60% ❑
61-80% ❑
81-100% ❑
Mwy na 100% ❑
Ddim yn gwybod ❑

C8c **Os newidiwyd:Beth ydych chi'n meddwl sydd wedi cyfrannu at y newid {V1} hwn?** *Ticiwch bob un sy'n berthnasol*

Faint o fusnes/gwaith sydd ar gael ❑
Swm y cyllid cyhoeddus sydd ar gael ❑
Effeithiau parhaus y pandemig Covid-19 ❑
Effeithiau costau byw cynyddol ❑
Swm ymwybyddiaeth o'r busnes/fy ngwaith ❑
Faint o ddefnyddwyr neu gyfranogiad yn y sector rwy'n gweithio ynddo ❑
Arall ❑

**Arall (nodwch)**

___

C9 **Gan ddefnyddio graddfa o 1 i 5, lle nad yw 1 yn hyderus o gwbl a 5 yn hyderus iawn, pa mor hyderus ydych chi am redeg eich busnes yn broffidiol yn y flwyddyn ariannol nesaf?**

1 – Ddim yn hyderus o gwbl ❑
2 ❑
3 – Ychydig yn hyderus ❑
4 ❑
5 – Hyderus iawn ❑

C10 **Pa ffynonellau cyllid a gawsoch yn eich blwyddyn ariannol ddiwethaf?**
*Ticiwch bob un sy'n berthnasol*

- Cyngor Celfyddydau Cymru ❑
- Cyngor Llyfrau Cymru ❑
- Grantiau Ardrethi Busnes ❑
- Grantiau'r Cyngor ❑
- Cymru Greadigol/ grantiau Llywodraeth Cymru ❑
- Arian y Loteri Genedlaethol ❑
- Grantiau hunangyflogaeth ❑
- Ni chefais unrhyw gyllid ❑
- Arall ❑

**Arall (nodwch)**

______________________________

## Peidiwch â gofyn i weithwyr llawrydd: Sgiliau a recriwtio

C11a **Peidiwch â gofyn i weithwyr llawrydd:Ar gyfer busnesau: Yn y 12 mis diwethaf, ble rydych chi wedi recriwtio a sut?** *Os ydynt yn crybwyll trwy gynllun hyfforddi, gofynnwch pa un. Ticiwch bob un sy'n berthnasol*

- Cyfeiriadur llawrydd ❑
- Ffynonellau ar-lein ❑
- Trwy asiantaeth ❑
- Trwy sianeli AU/AB ❑
- Ar lafar ❑
- Trwy gynllun hyfforddi (nodwch) ❑
- Trwy cyfryngau cymdeithasol ❑
- Gyda chefnogaeth gan Gyllid Sgiliau Hyblyg Llywodraeth Cymru ❑
- Arall ❑
- Ddim yn berthnasol/ heb recriwtio ❑

**Pa gynllun hyfforddi? (nodwch)**

______________________________

**Arall (nodwch)**

______________________________

C11b **Peidiwch â gofyn i weithwyr llawrydd: Ydych chi wedi profi unrhyw heriau gyda recriwtio yn ystod y 12 mis diwethaf?**

- Do ❑
- Na ❑

C11c **Os 'do' ar C11b: Pa heriau ydych chi wedi'u hwynebu gyda recriwtio?**
*Ticiwch bob un sy'n berthnasol*
Diffyg capasiti AD/dim adran AD bwrpasol ❑
Pwll cyfyngedig o ymgeiswyr â sgiliau perthnasol ❑
Ymateb isel i hysbysebion swyddi ❑
Cystadleuaeth uchel gan gyflogwyr eraill ❑
Anawsterau wrth gynnig cyflog neu amodau cystadleuol ❑
Arall ❑

**Arall (nodwch)**

______________________________________________

C12 **Pa rolau wnaethoch chi recriwtio ar eu cyfer? {V2}**

*Disgrifiwch unrhyw rolau rydych chi wedi cyflogi ar eu cyfer neu wedi rhoi gwaith ar gontract allanol ar eu cyfer. Os ydych chi'n gyflogai sy'n ymwneud â chyflogi, nodwch eich rhan mewn cyflogaeth.*

______________________________________________

C13a **Peidiwch â gofyn i weithwyr llawrydd:Ar gyfer busnesau: A ydych wedi cael anawsterau gyda chadw staff yn y 12 mis diwethaf?**
Do ❑
Na ❑

**Faint o staff sydd wedi gadael eu rolau?** *Nodwch rif bras lle bo modd*

______________________________________________

C13b **Os C3 = Gweithwyr Llawrydd: Ar gyfer Pobl Nad Ydynt yn Weithwyr: A ydych wedi cael anawsterau wrth ddod o hyd i swyddi ar gyfer rhai rolau?**

*Os ydych yn llawrydd neu'n hunangyflogedig, disgrifiwch unrhyw heriau rydych wedi'u hwynebu wrth ddod o hyd i waith neu logi cymorth.*
Do ❑
Na ❑

**Os ydych: Pam ydych chi'n meddwl yw hyn?** *Rhowch fanylion llawn isod*

______________________________________________

C14 **Peidiwch â gofyn i gyflogeion:Ar gyfer y rhai nad ydynt yn weithwyr: A ydych wedi wynebu heriau wrth lenwi rolau penodol?**
Do ❑
Na ❑

C15a **Pa rolau sydd wedi bod yn heriol i'w llenwi? {V3}**

______________________________________________

C15b **Os C16a = Ydw:Pam ydych chi'n meddwl fod heriau?** *Rhowch fanylion llawn isod*

________________________________________________

C15c **Os C3 = Gweithwyr Llawrydd:Ar gyfer gweithwyr llawrydd: Yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf, a ydych chi wedi ystyried gadael eich proffesiwn?**

Do ............................................................................................................ ❑
Na ............................................................................................................ ❑

**Pam?** *Rhowch fanylion llawn isod*

________________________________________________

C16a **Peidiwch â gofyn i weithwyr llawrydd: Ar gyfer busnesau: A oes gennych unrhyw fylchau sgiliau yn eich gweithlu neu'n rhagweld unrhyw rai yn y flwyddyn nesaf?**

Oes ............................................................................................................ ❑
Nac oes ............................................................................................................ ❑

C16b **Os C3 = Gweithwyr Llawrydd: Ar gyfer gweithwyr llawrydd: A oes gennych chi anghenion datblygiad proffesiynol penodol?**

Oes ............................................................................................................ ❑
Na ............................................................................................................ ❑

C16c **Os ydych:Pa fylchau sgiliau neu heriau ydych chi wedi dod ar eu traws neu wedi'u rhagweld yn y flwyddyn nesaf?** *Ticiwch bob un sy'n berthnasol*

Yr Iaith Gymraeg ............................................................................................ ❑
Cymwysterau ............................................................................................ ❑
Gwybodaeth sector-benodol neu fylchau sgiliau technegol sy'n berthnasol i'r sector............................................................................ ❑
Sgiliau pobl............................................................................................ ❑
Sgiliau gweinyddol ............................................................................................ ❑
Sgiliau rheoli ............................................................................................ ❑
Sgiliau technoleg............................................................................................ ❑
Marchnata a brandio (gwefan, cyfryngau cymdeithasol).......................... ❑
Ariannu a sgiliau ariannol ............................................................................................ ❑
Sgiliau creadigol ac artistig............................................................................................ ❑
Cydlynu gwirfoddolwyr ............................................................................................ ❑
Cynllunio strategol ............................................................................................ ❑
Sgiliau marchnata digidol............................................................................................ ❑
Datblygu AI............................................................................................ ❑
Arall ............................................................................................ ❑

**Nodwch fylchau gwybodaeth/ sgiliau sector-benodol**

________________________________________________

**Arall (nodwch)**

________________________________________________

C17 **Peidiwch â gofyn i weithwyr llawrydd/gweithwyr: Ar gyfer busnesau: Ydych chi'n darparu hyfforddiant a datblygu sgiliau ar gyfer eich staff?**
Ydym .................................................... ❑
Nac ydym.................................................... ❑

**Os ydym:Pwy yw'r darparwr hyfforddiant?** *Rhowch fanylion llawn isod*

________________________________________________________________

C18a **Gofynnwch i bawb: Gan ddefnyddio graddfa o 1-5, lle mae 1 yn anodd iawn a 5 yn hawdd iawn, pa mor hawdd yw hi i gael mynediad at gyfleoedd hyfforddi a datblygu sgiliau perthnasol (naill ai'n annibynnol neu drwy waith)?**
1 - Anodd iawn.................................................... ❑
2 .................................................... ❑
3 – Naill na'r llall .................................................... ❑
4 .................................................... ❑
5 - Hawdd iawn.................................................... ❑

C18b **Gofynnwch i bawb: Gan ddefnyddio graddfa o 1-5, lle mae 1 yn isel iawn a 5 yn uchel iawn, beth yw eich barn am eich boddhad swydd?**
1 - Isel iawn .................................................... ❑
2 .................................................... ❑
3 – Naill na'r llall .................................................... ❑
4 .................................................... ❑
5 - Uchel iawn .................................................... ❑

C18c **Gofynnwch i bawb: Gan ddefnyddio graddfa o 1-5, lle mae 1 yn isel iawn a 5 yn uchel iawn, beth yw eich barn am eich lles mewn perthynas â gwaith?**
1 - Isel iawn .................................................... ❑
2 .................................................... ❑
3 – Naill na'r llall .................................................... ❑
4 .................................................... ❑
5 - Uchel iawn .................................................... ❑

## Cymru Greadigol

C19 **Ydych chi wedi clywed am Cymru Greadigol?**
Do .................................................... ❑
Na .................................................... ❑

**Os na yn C20, darllenwch yn uchel: Mae Cymru Greadigol yn asiantaeth Llywodraeth Cymru a sefydlwyd yn 2020 i gefnogi'r diwydiannau creadigol yng Nghymru. Maent yn harneisio pŵer y sectorau creadigol, yn ysgogi twf yn yr economi ac yn helpu i adeiladu dyfodol llewyrchus i Gymru.**

C20 **A ydych yn ymwybodol bod Cymru Greadigol yn rhan o Lywodraeth Cymru?**
Ydw.................................................... ❑
Nac ydw .................................................... ❑

C21 **Sut gall Cymru Greadigol eich cefnogi yn y dyfodol?** *Dewiswch eich 3 ateb gorau*

- Cyllid ❑
- Rhwydweithio ❑
- Cymorth a chyngor busnes ❑
- Cefnogaeth gyda mynediad i hyfforddiant seiliedig ar waith ❑
- Darparu cyrsiau AB/AU a ariennir yn gyhoeddus ❑
- Adnoddau a seilwaith ❑
- Cymorth gyda marchnata/hyrwyddo/gwelededd ❑
- Cymorth i fod yn fwy cynaliadwy ❑
- Gwella dealltwriaeth o effeithiau deallusrwydd artiffisial ❑
- Dim angen cefnogaeth gan Cymru Greadigol / Dim byd maen nhw gallu helpu gyda ❑
- Ddim yn gwybod / ddim yn siŵr ❑
- Arall ❑

**Arall (nodwch)**

________________________________________________

C22 **Os ydy yn C20: Gan ddefnyddio graddfa o 1 i 5, lle nad yw 1 yn dda iawn a 5 yn dda iawn, pa mor dda ydych chi'n meddwl y mae Cymru Greadigol yn cyfathrebu'r hyn y mae'n ei wneud a sut y gall eich helpu?**

- 1 - Ddim yn dda iawn ❑
- 2 ❑
- 3 ❑
- 4 ❑
- 5 - Da iawn ❑

## Sianeli eraill

C23 **Sut byddai'n well gennych dderbyn newyddion a gwybodaeth am yr hyn y mae Cymru Greadigol yn ei wneud a sut y gall eich cefnogi?** *Ticiwch bob un sy'n berthnasol*

- Ebost ❑
- Ffon ❑
- Cyfryngau cymdeithasol ❑
- Post ❑
- Arall ❑
- Ddim eisiau newyddion na gwybodaeth ❑

**Arall (nodwch)**

________________________________________________

C24 **Pa sianeli cyfryngau cymdeithasol ydych chi'n dibynnu arnynt at ddibenion busnes?** *Dewiswch eich 5 sianel a ddefnyddir fwyaf*

- LinkedIn ❑
- Facebook ❑
- X (Trydar yn flaenorol) ❑
- Instagram ❑
- Pinterest ❑
- YouTube ❑
- TikTok ❑
- WhatsApp ❑
- Tumblr ❑
- Yelp ❑
- Snapchat ❑
- Mastodon ❑
- BlueSky ❑
- Threads ❑
- Arall ❑
- Ddim yn dibynnu ar cyfryngau cymdeithasol ❑

**Nodwch os gwelwch yn dda:**

______________________________________________________

C25a **Peidiwch â gofyn i weithwyr llawrydd:Ar gyfer busnesau: A ydych wedi cofrestru ar y Gronfa Ddata Cyfleuster Cynhyrchu?**

*Cofrestru fel cwmni ar gronfa ddata* ***Cyflenwr Cynhyrchu*** *Sgrin Cymru*

*Mae cronfa ddata cyfleusterau Sgrin Cymru yn adnodd ar-lein am ddim sy'n cysylltu cynyrchiadau â chyflenwyr lleol. Gall cwmnïau gofrestru eu manylion yn uniongyrchol ar wefan Cymru Greadigol er mwyn cael eu cyflwyno ar gyfer ymholiadau perthnasol.*

- Do ❑
- Na ❑

C25b **Os C3 = Gweithwyr Llawrydd: Ar gyfer gweithwyr llawrydd: A ydych wedi cofrestru ar Gronfa Ddata Sgrin Cymru?**

*I gofrestru ar gronfa ddata* ***Criw Llawrydd*** *Sgrin Cymru (mae angen profiad proffesiynol blaenorol o weithio ym maes Ffilm/Teledu)*

*Mae cronfa ddata criw Sgrin Cymru yn adnodd ar-lein am ddim sy'n cysylltu cynyrchiadau â chriw profiadol. Gall gweithwyr llawrydd gofrestru eu manylion yn uniongyrchol ar wefan Cymru Greadigol er mwyn cael eu cyflwyno ar gyfer ymholiadau perthnasol.*

- Do ❑
- Na ❑

C26a **Mae gennym ddiddordeb mewn archwilio amrywiaeth y gweithlu creadigol, felly mae gennym ddiddordeb mewn darganfod pa mor amrywiol yw'r sectorau yn fwy manwl.**

**Sut byddech chi'n disgrifio'ch hun?**

- Dyn ❑
- Dynes ❑
- Anneuaidd ❑
- Rhywbeth arall ❑
- Gwell gennyf beidio â dweud ❑

**Nodwch eich ymateb 'arall'**

______________________________________________________

C26b **A yw eich rhyw yr un fath â pan gawsoch eich geni?**

Ydi ❑
Nac ydi ❑
Gwell gennyf beidio â dweud ❑

C27a **Beth yw eich ethnigrwydd?**

Gwyn ❑
Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig ❑
Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd ❑
Grwpiau ethnig Cymysg neu Lluosog ❑
Grŵp ethnig arall ❑
Gwell gennyf beidio â dweud ❑

**Ai dyna...?**

Gwyn Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddelig Gogleddol neu Brydeinig ❑
Gwyddel gwyn ❑
Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig ❑
Roma ❑
Gwyn Arall ❑
Gwell gennyf beidio â dweud ❑

**Arall (nodwch)**

________________________________________

**Ai dyna...?**

Indiaidd ❑
Bangladeshaidd ❑
Pacistanaidd ❑
Tsieineaidd ❑
Unrhyw gefndir Asiaidd arall ❑
Gwell gennyf beidio â dweud ❑

**Arall (nodwch)**

________________________________________

**Ai dyna...?**

Caribïaidd ❑
Cefndir Affricanaidd ❑
Unrhyw gefndir Du, Du Prydeinig neu Garibïaidd arall ❑
Gwell gennyf beidio â dweud ❑

**Arall (nodwch)**

________________________________________

**Ai dyna...?**

Gwyn a Du Caribïaidd ❑
Gwyn ac Asiaidd ❑
Gwyn a Du Affricanaidd ❑
Unrhyw gefndir cymysg neu luosog arall ❑
Gwell gennyf beidio â dweud ❑

**Arall (nodwch)**

______________________________________________

**Ai dyna...?**
Arabaidd ❑
Unrhyw grŵp ethnig arall ❑
Gwell gennyf beidio â dweud ❑

**Arall (nodwch)**

______________________________________________

C27b **Beth yw eich cenedligrwydd?**
Cymraeg ❑
Saesneg ❑
Albanaidd ❑
Gogledd Iwerddon ❑
Prydeinig neu Wyddelig ❑
Arall (nodwch) ❑

**Nodwch eich ymateb 'arall'**

______________________________________________

C27c **Beth yw'r lefel uchaf o addysg rydych chi wedi'i chyflawni?**
Dim cymwysterau ffurfiol ❑
Ysgol Uwchradd (hyd at 16 oed) ❑
Addysg Bellach (e.e., Safon Uwch, cymwysterau galwedigaethol) ❑
Gradd israddedig (e.e., BA, BSc) ❑
Gradd ôl-raddedig (e.e. MA, MSc, PhD) ❑
Cymwysterau Proffesiynol (tystysgrifau neu gymwysterau a ddyfernir gan gyrff neu sefydliadau proffesiynol) ❑
Gwell gennyf beidio â dweud ❑

C27d **Ydych chi'n uniaethu fel rhywun anabl?** *Gyda hyn rydym yn golygu yn unol â'r model cymdeithasol o anabledd – lle gall rhwystrau yn y gymdeithas (megis rhwystrau corfforol, agweddol neu gyfathrebu) effeithio ar eich gallu i gymryd rhan mewn gweithgareddau bob dydd (er enghraifft anawsterau corfforol, synhwyraidd, iechyd meddwl neu ddysgu).*
Ydw ❑
Nac ydw ❑
Gwell gennyf beidio â dweud ❑

## Yr Iaith Gymraeg

C28 **Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau eich gallu i siarad Cymraeg?**
Dw i'n rhugl yn y Gymraeg ❑
Dw i'n gallu siarad tipyn o Gymraeg ❑
Dim ond ychydig o Gymraeg alla i ei siarad ❑
Gallaf ddweud ychydig eiriau yn unig ❑
Dw i ddim yn gallu siarad Cymraeg ❑